

ECO'R WYDDFA

RHIF 366

MAI 2009

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Parcio yn Llanberis
- Priodas yn Neiniolen
- Chwilota Cwm y Glo

LLWYDDIANNAU LLEOL

FFILMIO



Mae Alun Hughes o'r Fach Wen wedi bod yn brysur hel gwobrau ffilmio unwaith eto. Mis llwyddiannus iawn oedd Mawrth eleni i Alun gan iddo gael dwy wobwr mewn gwyliau ffilm pwysig. Cafodd y wobwr gyntaf am y ffilm rhyngwladol orau yng ngwyl Fort William am ei ffilm UpsideDown Wales. Fe'i cynorthwywyd yn y fenter hon gan George Smith o'r Fach

Wen, sef y dringwr a ddilynir yn y ffilm a George hefyd ysgrifennodd y sgript. Yn cyd olygu gydag Alun roedd Ray Saunders o Frynrefail a Ray oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth.

Cynhaliwyd Gwyl Cyfryngau Celtaidd eleni yng Nghaernarfon a chipiodd ffilm a gynhyrchwyd ac a gyfarwyddwyd gan Alun wobwr



Ysbryd Yr Wyl. Mae'r ffilm wedi ei dangos ar S4C eisoes, sef 'Dringo i'r Eitha' gan Cwmni Da. Os am fwy o wybodaeth ewch i wefan Alun: www.alhughes.tv/index.asp

Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris a Lowri Watcyn Roberts ar ennill Cân i Gymru ar S4C Ddydd Gwyl Dewi gyda'i cân 'Gofidiau'.

Ond hefyd am fynd ymlaen ac ennill yn yr Wyl Ban-Geltaidd yr Iwerddon, fis Ebrill.

Mae Elfed yn athro yn Ysgol John Bright, Llandudno ac mae Lowri hithau'n dysgu yn Ysgol Brynrefail.

Mae'r ddau eisoes wedi ennill cystadleuaeth cyfansoddi carol S4C ddwywaith. Dyma hefyd oedd y trydydd tro i Elfed ganu yn ffeinal Cân i Gymru.

PÊL-DROED

Llongyfarchiadau i'r tîm dan 12 ar ennill cwpan Gogledd Cymru yn Llanfairfechan. Aeth yr hogiau drwy'r rowndiau a chyfarfod Conwy yn y ffeinal a'u curo 3-0.

Cafwyd y goliau gan Tomos Saynor (cafodd y wobwr am y chwaraewr gorau), Luke Philips a Dylan Thomas.

Da iawn bawb. Bydd crynswth y tîm yn cynrychioli'r ardal, sef Cynrhair Gwyrfa'i)

Llun: Pencampwyr Gogledd Cymru - Tîm dan 12 llewod Llanrug



ECO'R WYDDFA

**RHIF 366
MAI 2009**
Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAETHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol
NOS SUL Mehefin 21ain

o'r gwylch yn odo
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Gorffennaf 2il

Dyddiad Gosod
SUL Mehefin 28ain, 5 y pwnn
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mehefin	Sul 21 Mehefin	Sul 28 Mehefin	Iau 2 Gorffennaf	Brynrefail	Gwyn Hefin Jones	870848
Gorffennaf	Sul 19 Gorffennaf	Sul 28 Gorffennaf	Iau 30 Gorffennaf	Bethel	Geraint Elis	01248 670726

Llythyrau

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Annwyl ddarlennwyr,
Yn dilyn ein llwyddiant yn yr
Eisteddfod Sir, mae Ysgol
Gymuned Penisarwaun yn anfon
criw mawr o blant i Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd yng
Nghaerdydd. Dyma'r tro cyntaf
i'r ysgol anfon criw i'r Eisteddfod
a ni yw'r ysgol leiaf yng
Ngwynedd i anfon criw mor
fawr. Mae'r ysgol a'r gymuned
gyfan yn falch iawn o'r plant a
rydym wedi bod wrthi'n codi
arian i dalu am y daith dros yr
wythnosau diwethaf. Rwy'n

ysgrifennu atoch i annog unrhyw
ddarlennwyr sy'n gyn-
ddisgyblion yn Ysgol Gymuned
Penisarwaun i gefnogi'r ymgyrch
godi arian, a byddwn yn
ddiolchgar iawn am unrhyw
roddion ar gyfer y gronfa. Mae'n
mynd i gostio ymhell dros fil o
bunnoedd i anfon y plant i
Gaerdydd, ac mae hyn yn swm
mawr i ysgol a chymuned fechan
ei godi mewn ychydig
wythnosau. Gellir anfon unrhyw
roddion atom i Ysgol Gymuned
Penisarwaun, Penisarwaun,
Caernarfon, Gwynedd LL55
3BW, a byddai'r ysgol a'r
gymuned yn ddiolchgar am
unrhyw gefnogaeth. Gyda llawer
o ddiolch,
GARETH FÔN JONES, Prifathro

7 Stryd y Capel,
Porthaethwy

Ar ddydd Sul, 3 o Fai, bydd
croeso mawr i bawb ddod ar y
'Chwyl-DRO', sef taith
hanesyddol fydd yn arwain at
ddysgu ychydig am hanes
chwareli'r ardal, yn arbennig y
streiciau a brwydrau y
gweithwyr. Selwyn Williams—
darlithydd yn y Brifysgol
Bangor (a fu'n byw yn Llanrug
am beth amser) fydd yn arwain
y daith. Cyfarfod yn Pete's Eats
Llanberis am 11 y bore...
wedyn, taith/sgwrs dros banded,
gan orffen yn ôl erbyn 3 o'r
gloch. Trefnir gan Undeb Llafur
yr IWW i ddathlu Mai Iaf - yr
wyl lafur ryngwladol.

HUW JONES

Rhyfeddod Hanes y Diwydiant Llechi

Arddangosfa Etifeddiaeth y Chwareli Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

1 Mawrth - 31 Mai 2009

Mae arddangosfa newydd yn
Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis yn tynnu sylw at yr
amrywiaeth eang o
weithgareddau a gynhelir yn
ardaloedd y llechi heddiw -
drwy gyfrwng technoleg
newydd! Mae'r arddangosfa,
Etifeddiaeth y Chwareli, yn
edrych ar yr holl arallgyfeirio
sydd wedi digwydd ers dirywiad
y diwydiant ar ddiwedd y
1960au drwy gyfraniadau gan
gerddorion, artistiaid, dringwyr,
beicwyr mynydd, deifwyr a hyd
yn oed gyrwyr lorïau, ac mae'r
pynciau'n amrywio o eitemau ar
neidio i'r dŵr o uchder mawr a
dringo i storïau digrif ac
atgofion, ffotograffiaeth a
ffilmiau.

Gwaith gan Gymdeithas y
Rhyfeddod - grŵp o
berfformwyr sy'n cynnwys
cerddorion, awduron,
technegwyr, artistiaid
amlygfrwng ac unigolion
creadigol o gyffelyb fryd o
ogledd Cymru - yw'r
arddangosfa. Meddai Gwion
Llwyd o'r Gymdeithas:

'Nid paneli gyda thestun a
lluniau fydd cynnwys yr
arddangosfa hon ond yn
hytrach, bydd ymwelwyr yn
gallu rheoli'r arddangosfa eu
hunain drwy bwysu'r botymau
a fydd yn eu tro yn cychwyn
cyfres o ffilmiau.
Ffotograffiaeth a chansuon a
ddangosir ar y wal o'u
blacnau.'

Mae'r arddangosfa, sy'n
cynnwys clfen gerddorol gref,

yn rhan o thema CERDD
Amgueddfa Cymru ar gyfer
2009, sef rhaglen o
ddigwyddiadau ac
arddangosfeydd sy'n cynnig
cyfle unigryw i ddathlu
cerddoriaeth, treftadaeth a
diwylliant Cymru.

Bydd yn cynnwys caneuon
traddodiadol a modern sy'n
ymwneud â'r diwydiant llechi,
megis 'Car Gwyllt y Graig Ddu',
cân Maffia Mr Huws am
Arglwydd Penrhyn a Streic
Fawr 1903; a Strydoedd
Bethesda, sy'n edrych ar y
peryglon o weithio yn y chwarel
drwy lygaid bachgen ifanc sy'n
derbyn cyngor gan ei daid.
Gobeithir hefyd y gellir ail-
dechongli'r hen nodiant a gâi ei
gerfio ar lefydd tân a wnaed o
lechfaen, yn ogystal â chynnwys
darn am y 'ravers' sy'n
defnyddio'r hen chwareli segur
heddiw.

'*Mae hon yn arddangosfa
hynod o gyffrous i ni*, meddai
Cadi Iolen, Curadur
Amgueddfa Lechi Cymru, 'gan
ei bod yn cymryd gotwg hollol
wahanol ar y diwydiant llechi
heddiw, ac yn adrodd y straeon
hyn mewn ffordd mor wahanol
- nid yn unig y mae'r themâu'n
hollol newydd, ond mae holl
gynllun yr arddangosfa'n hynod
o fodern, sy'n newid llwyr i ni, a
gobeithiwn y bydd ein
hymwelwyr yn mwynhau
chwarae rôl fwy rhyngweithiol.'

Bydd yr arddangosfa i'w
gweld o'r 1af o Fawrth hyd yr
31ain o Fai 2009, a bydd ar agor
rhwng 10 o'r gloch y bore a 4 o'r
gloch y prynhawn. I gael rhagor
o wybodaeth, a fydddech cystal â
chysylltu â'r amgueddfa ar
01286 870630, neu cwch i wfan
yr amgueddfa:

www.museumwales.ac.uk neu i
www.rhyfeddod.com.

RHODDION

£20.00: Er Cof annwyl am am
Dad a Mam, sef Leslie a Doreen
Williams, gynt o 9 Trem Eilian,
Brynrefail, a hunasant 1974 a
1979. Byth yn angof, gan Elsie a
Glenys a'u teuluoedd; Mrs
Megan Pritchard, Golygfa, Bryn
Moelyn, Llanrug.

£10: Pat a Leslie Larsen,
Penisarwaun; Teulu Tawelfa,
Penisarwaun; Mair Foulkes,
Bryn Hyfryd, Penisarwaun (heb
ei gynnwys y mis diwethaf!);
Helen Lewis, 4 Y Bwthyn,
Deiniolen; Martin Worth,
Niagria, Deiniolen; Gwynfor a
Jean, Bwlch Uchaf, Deiniolen;
Mrs Doris Roberts, Dwyros,
Waunfawr; Mrs Lily Owen,
Cefn Elan, Llanrug; Mrs
Eirwen Williams, 1 Bryn Gro,
Llanrug.

£8.50: Mrs Ann Rhys William,
Rhyll

£5: Mr a Mrs Eric Jones, 17
Bryn Tirion, Penisarwaun;
Nannie Evans, 26 Bryn Tirion,
Penisarwaun; Helen Parry,
Stryd Turner, Llanberis; Muriel
Roberts, 11 Stryd Turner,
Llanberis; Buddug Thomas, 5
Rhydfadog, Deiniolen; Y
Prifardd Selwyn Griffith,
Penisarwaun; Elen a Paul,
Caernarfon; Mrs Elinor
Williams, 2 Y Bwthyn,
Deiniolen; Jennie Wyn Jones,
Dwyfor, Nant Peris; Geraint
Huws Roberts, Bangor; Dennis
a Mair Davies, Ael y Glyn,
Llanberis; Ritchard Wyn a
Gwyneth Evans, Ty'n Buarth,
Brynrefail.

£3.50: Ronnic Williams,
Aylestone.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr**

TÂL PARCIO I GYNNAL BWS SHERPA

Gwaith uwchraddio i gychwyn ar faes parcio yn Llanberis

Mae gwaith wedi cychwyn i wella ac ehangu ar y cyfleusterau parcio ger y llyn yn Llanberis.

Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd y maes parcio newydd - sydd wedi ei leoli gyferbyn â Chlwb y Lleng Prydeinig yn Llanberis - yn cynnwys 80 o lefydd parcio, tua dwbl y llefydd sydd yno ar hyn o bryd. Bydd gwelliannau hefyd yn cael eu gwneud i'r ramp yn arwain i lawr at y llyn ac i'r llwybr o amgylch y llyn.

Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gwyliu'r Sulgwyn yn niwedd mis Mai, ond bydd ar gau i fodurwyr nes bydd y gwaith datblygu wedi ei gwblhau.

Wedi iddo gael ei gwblhau, bydd peiriant talu ac arddangos yn cael ei osod yn y maes parcio, a bydd yn dod yn faes parcio arhosiad hir. Mae'r gwaith yn cael ei gyllido gan Goriad Gwyrdd Eryri a bydd yr holl incwm a fydd yn cael ei dderbyn drwy ffioedd parcio yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa.

Dywedodd Billy Lee, o Bartneriaeth Goriad Gwyrdd Eryri:



'Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd yn welliant sylweddol i'r cyfleuster parcio. Bydd yr arian a fydd yn cael ei gynhyrchu drwy ffioedd parcio yn cael ei ddefnyddio i gefnogi bysus Sherpa'r Wyddfa sy'n cysylltu teithiau cerdded, pentrefi ac atyniadau poblogaidd, ac yn lleihau'r angen i bobl ddefnyddio'u ceir yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

'Mae'r Bartneriaeth yn credu y bydd yr incwm a fydd yn dod i

law drwy ffioedd parcio yn allweddol er mwyn cynnal y gwasanaeth Sherpa i'r dyfodol. Yn y gorffennol, mae arian grant wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cyllid hwn bellach wedi dod i ben, a thra ein bod ni wedi disgwyl swm ar gyfer 2009, bwriad y Bartneriaeth ar hyd yr amser oedd y byddai incwm ychwanegol o ffioedd parcio er mwyn cyfrannu tuag at ddarpariaeth y gwasanaeth.'

Mae tocynnau parcio blyneddol ar gael gan Gyngor

Gwynedd a fydd yn caniatáu parcio yn holl feysydd parcio arhosiad hir Cyngor Gwynedd drwy'r sir. Mae tocynnau ar gael o swyddfeydd arian Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon a Bangor.

Mae Partneriaeth Goriad Gwyrdd Eryri yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistrefol Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cefnffyrdd Llywodraeth y Cynulliad a Croeso Cymru.

GOLWG YN RHOI LLE AR Y WE I'R GYMRAEG

Does dim dwywaith nad yw papurau bro ar hyd a lled Cymru yn ffynonellau pwysig i adrodd newyddion lleol, rhoi gwybod i ddarlennwyr am ddigwyddiadau ac ysgogi trafodaeth. A thra bydd papurau yn parhau yn ddulliau effeithiol o ledaenu newyddion am flynyddoedd i ddod, mae'n siŵr, mae'n amhosib nawr i anwybyddu dylanwad y We hefyd fel cyfrwng cyfathrebu.

Ac mae'n hollbwysig bod y Gymraeg yn hawlio lle amlwg ar y cyfrwng hwnnw. Cyn bo hir, mewn menter hynod gyffrous, bydd *Golwg* yn creu gwasanaeth newyddion ar y We. Fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw bydd straeon o Gymru a gweddill y byd yn ymddangos yn gyson trwy'r dydd.

Ond, os yw'r gwasanaeth am fod yn llwyddiant mewn gwirionedd, mae angen i bob math o gyffwrdd, cwmnïau a mudiadau fod yn rhan ohono a chyfrannu ato. Fe fyddai'n wych gweld eich hardal chi yn cael ei

chynrychioli'n gryf.

Y syniad yw ei fod e'n fwy na gwasanaeth newyddion. Bydd lle i bob math o gymdeithasau, clybiau a mudiadau gymryd eu safle bach eu hunain ar y gwasanaeth - tudalen neu ddwy i ddweud wrth bawb pwy ydyn nhw ac i roi eu newyddion diwedddara'. Fe allai ysgol wneud, neu glwb chwaraeon neu, wrth gwrs, bapur bro. A'r cyfan yn hawdd a didrafferth.

Mae yna ffyrdd eraill o gyfrannu hefyd. Ym myd chwaraeon, er enghraifft, os oes rhywun yn sgorio gôl neu gais i dim lleol a bod rhywun wedi tynnu llun neu wneud fideo o hynny, fe allech chi ei anfon i mewn i'w roi ar y gwasanaeth. Felly, chi swyddogion a chefnogwyr y clybiau pêl-droed a rygbi lleol, cofiwch fynd â'ch camerâu gyda chi pan fyddwch chi'n mynd i wyllo gemau.

A does dim rhaid cyfyngu pethau i bêl-droed a rygbi, wrth gwrs. Beth am gael safle bach i glwb rali, clwb cerdded neu hyd yn oed i glwb jiwdo?

A thu hwnt i chwaraeon, bydd cyfle i fudiadau eraill hefyd - o Ferched y Wawr i gorau a chapel i ac eglwysi.

A beth am y Ffermwyr Ifanc? Mae'n siŵr bod digonedd o luniau o bob math o ddigwyddiadau gan aelodau'r clybiau (ac mae rhai yn ffit i'w



dangos i'r cyhoedd hefyd!). Ac, i grŵp pop ifanc sydd am gael llwyfan i'w gwaith, dyma le gwyh i lwytho caneuon neu fideos fel bod modd i eraill i'w gweld a'u clywed.

Fydd pob peth ddim yn digwydd reit o'r dechrau, ond mae'r cyfle yno, ac fe fydden ni'n hoffi clywed gan unrhyw un sydd â syniad.

Un fantais fawr i'r gwasanaeth newydd yw ei fod am ddim. Fydd dim rhaid i neb dalu am ddarlennu'r holl ddeunydd na gwylio clipiau o fideos ac ati.

Does yna ddim byd yn union yr un peth - yn cynnig gwasanaeth newyddion proffesiynol, adloniant a'r elfennau cymunedol a chymdeithasol yma.

Os bydd pawb yn cymryd y cyfle sydd ar gael i gymryd rhan a chyfrannu, fe fydd y gwasanaeth newydd yma'n torri tir hollol newydd, nid dim ond yng Nghymru ond, hyd y gwyddon ni, yng ngweddill gwledydd Prydain hefyd.

Cofiwch gysylltu ar: gol@golwg.com

AM BYTH MEWN LLECHEN

Gallwch noddi Seindorf Arian Llanrug!

drwy noddi llechen do. Cost fydd £2 y lechen a gosodir eich enw a'r dyddiad ar ei chefn. Cysylltwch : Mike Thomas, 7 Llys y Garn, Caernarfon LL55 2UT 01286 675084 NEU Alan Owen, 21 Glanrafon, Bontnewydd, LL55 2UW 01286 677350
E-bost: Bandllanrug@aol.com

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

PWYLLGOR NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r ddau enillydd oedd Gwen Roberts, Weirglodd Goch a Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion.

Nos Fercher, 1 Ebrill, cynhaliwyd noson Hwyl y Pasg yn y Neuadd. Bu'n hynod o lwyddiannus ac roedd tasg anodd tu hwnt o flaen Gwenan Dafydd, Pennaeth Ysgol Waunfawr, a fu'n byw am gyfnod yn Golygfa'r Wyddfa, ger Siop Gron. Dyma Noson Hwyl y Pasg fwyaf llwyddiannus a thoreithiog hyd yma. Roedd y cardiau Pasg, yr wyau wedi eu haddurno, yr hetiau, y teisennau a'r gerddi Pasg o safon uchel dros ben. Dymunir diolch i'r Pennaeth, staff, rhieni a'r plant am eu cydweithrediad parod. Diolch hefyd i Gwenan am ei beirniadaeth deg ac am ei haelioni. Diolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd at y weithgaredd.

21 Mai: cynhelir Miri Mai ar ddydd Iau, 16 Gorffennaf. Gobeithir cynnal Ras Peli a bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthu rhif pêl am 21 yr un. Erfynnir am eich cefnogaeth arferol.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Anfonir ein cofion annwyl at Mrs Annie Hughes, Llys y Gwynt, sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty.

YMDDIHEURIADAU. Ein ymddiheuriadau mawr i chwi, Miss Mair Foulkes, am adael eich enw allan o'r rhestr rhoddion. Dymunir diolch i chwi am eich rhodd haelionus yn dilyn eich pen-blwydd arbennig.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr bnawn Sul, 17 Mai, yn Festri Capel Coch, Llanberis. Bydd y bws yn cychwyn o Gapel Ebeneser, Deiniolen am 1.15pm; ym

Mhenisarwaun am 1.20pm, ac yng Nghwm y Glo am 1.25pm cyn cyrraedd Stryd Fawr Llanberis. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaethau.

Y RHWYG O GOLLI UN ANNWYL. Brawychwyd a syfrdanwyd pawb yma ym Mhenisarwaun a'r Fro o glywed am ddamwain anghueuol Sharon, gwraig annwyl Lionel Wooley ac unig blentyn Helen a Dafydd Owen, Bryn Hyfryd. Bu'n ymddiddori ymhob agwedd o'r Pethe, yn aelod ffyddlon o'r Urdd a'r Ysgol Sul. Un ddibynadwy mewn partion canu ac adrodd yn Eisteddfod y Pentref am flynyddoedd a mwynhawyd ei hanerchiad ddifyr a doniol yn ein Eisteddfod Bentref y llynedd. Gwerthfawrogodd y profiadau a gafodd ac anogodd blant heddiw i gymryd pob cyfle i berfformio a chymryd rhan a mwynhau.

Yn gynnar iawn yn ei bywyd roedd yn amlwg mai cwmni plant oedd ei diddordeb a mawr fu braint disgyblion Ysgol Llanfachraeth o'i chael fel athrawes ddiwylliedig, annwyl ac ymroddgar.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwfn iawn â'i gŵr, Lionel, ac â Helen a Dafydd a'r teulu oll. Boed i chwi wybod ein bod ni oll yn meddwl amdanoch.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Santes Helen, bnawn Sadwrn, 18 Ebrill am 1.00 o'r gloch. Fe'i rhoddwyd i orffwys yn nhir ei chynefin ym mynwent Eglwys Santes Helen.

C Y M A N F A ' R ANNIBYNWYR. Cynhelir y Gymanfa bnawn Sul, 17 Mai, am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis. Bydd y bws yn cychwyn o Gapel Ebeneser, Deiniolen am 1.15; Penisarwaun am 1.20; Cwm y Glo am 1.25 a chyrraedd Stryd Fawr Llanberis am 1.35.

Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am

PRIODASAU PENISARWAUN



PRIODAS YN SANSIBAR. Ar lan y môr yn Sansibar y bu i Manon Glyn a Mike Lewis briodi. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da i chwi ym Mryste.

PRIODAS YN RHYDYCHEN. Ein dymuniadau gorau i Siôn Rees Williams a Miranda Constance Griffin ar eu priodas hwythau yn ddiweddar. Mwynhawyd bwffe i ddathlu'r briodas yng Ngholeg Baliol, Rhydychen.



PRIODAS YNG NGHAEREDIN. Dydd Mercher, 8 Ebrill, priodwyd Iwan Glyn, Tawelfa, â Laura Wilson o Gaeredin. Cafwyd haul ar y fodrwy ac roedd awyrgylch hyfryd Caeredin yn goron ar y diwrnod mawr. Nos Sul, 12 Ebrill, daeth nifer fawr o'r teulu a ffrindiau i ddathlu eu huniad yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd. Pob bendith i chwi, Iwan a Laura.

PRIODAS AUR. Ar 31 Mawrth bu dau arbennig yn dathlu eu Priodas Aur, sef Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul. Yn ddau hynod o weithgar yn eu cymdeithas a'r fro, yn rhieni balch i bedwar o blant ac yn nain a thaid gofalus i'w wyrion a'u wyresau - naw i gyd hyd yma. Bu'r teulu yn dathlu'r diwrnod mawr yn Seiont Manor. Ymlaen am y Deiamwnt rwan!

Dymuna Pat a Leslie ddiolch i'w plant a'r yng nghyfraith, y teulu oll, ynghyd â ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd mawr ac am sicrhau dathliad bythgofiadwy o flynyddoedd priodasol hapus. Diolch o galon.

eich cefnogaeth.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Mawrth oedd Mr Eric Jones, 17 Bryn Tirion (rhif 14). Llongyfarchiadau!

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Ar Ebrill 26 bydd Jean Jones, Bryn Tirion, yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed. Llongyfarchiadau, Jean, oddi wrth Wil, Haydn, Sean a Jordan a'r teulu i gyd. Pob hwyl ar y dathlu a da clywed dy fod ar y ffordd i wella'n llwyr.

DIOLCH. Dymuna Manon a Mike ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion ac am sicrhau diwrnod arbennig iddynt ar draeth cynnes Sansibar.

Yr un modd dymuna Iwan a Laura ddiolch i'w rhieni, teulu a ffrindiau am bob caredigrwydd ac am rannu eu hapusrwydd gyda hwy ar 12 Ebrill.

Dymuna Siôn a Miranda ddiolch yn ddiffuant i'r teulu a chyfeillion am bob dymuniad

da a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Y maent yn byw bellach yn 62 North View Road, Houghton Regis, Dunstable.

DIOLCH. Dymuna Eurgain haf ddiolch i'w ffrindiau o'r Fro am eu dymuniadau da wedi iddi gael damwain ar ei cheffyl yn ddiweddar.

YSGOL GYNRADD

Codi arian: Mae'r gwaith o godi arian i anfon grŵp cân actol blwyddyn 4, 5 a 6, Ysgol Gymuned Penisarwaun i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn mynd rhagddo yn arbennig o dda. Lanswyd y gweithgareddau'n swyddogol ar 2 Ebrill, gyda noson bingo yn yr ysgol, ac cilliodd Miss Bethan Williams ei phen i godi arian i dalu am daith y plant i Gaerdydd. Diolch i bawb a gefnogodd y noson ac i'r rheini a fu wrthi'n brysur yn hel noddwyr dros Miss Williams. Cawn wybod faint gafodd ei hel

parhad ar dudalen 5

Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus.

Seisig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

John C. Thomas

**SAER
COED**

**ARBENIGO
MEWN CEGINAU A
DODREFN CEGIN**

**Saer Profiadol • Prisiau Teg
Ystyried pob math o waith**

**(01286) 872012
Symudol- 07790 083643**

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

parhad o dudalen 4

ar ôl gwyliau'r Pasg.

Diolch hefyd i Gwenda, Carol a Carolyn am redeg boreau coffi ar gyfer y pentref yn y Neuadd Gymuned dros y pythefnos diwethaf. Llwyddwyd i godi dros £145 ar gyfer cronfa Caerdydd, a bu'r boreau'n boblogaidd iawn gyda rhieni a thrigolion y pentref. Diolch o galon i chi am eu trefnu.

Byddwn yn pacio bagiau yn siop Morrisons, Caernarfon, ddydd Sul 3 Mai, i godi arian, ac yna'n cynnal Ffair Fai ar dir yr ysgol, brynhawn Sadwrn 9 Mai, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed a chodi arian i gronfa'r ysgol.

Bydd y gweithgareddau a'r digwyddiadau codi arian yn parhau rhwng rŵan a chanol Mai, gyda'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu gysylltu â'r ysgol.

Gwahoddiad. Derbyniodd disgyblion Bl 3 a 4 wahoddiad i fynd i Gelli Gyffwrdd ar ddydd Gwener, 20 Mawrth. Roedd Mr Alun Ffred Jones yno ar gyfer agoriad swyddogol o atyniad newydd, sef 'Llwybr Troednoeth'. Cawsant gyfle i gerdded ar hyd y llwybr yng nghwmni Mr Jones ac amryw o bobl eraill a wahoddiwyd yno ar y diwrnod. Ymddangosodd llun y plant gyda hanes yr agoriad yn y Daily Post, ddydd Sadwrn, 21 Mawrth.

Profiad Gwaith. Treuliodd Mathew Jones o Ysgol Brynrefail wythnos yma ar brofiad gwaith o 29 Mawrth hyd 3 Ebrill. Gobeithio ei fod wedi mwynhau'r cyfnod yma. **Ymweliadau â'r Ysgol.** Treuliodd PC Neil Williams ddiwrnod yn yr ysgol ddydd Mawrth 31

Mawrth yn sgwrsio gyda'r gwahanol ddosbarthiadau.

Yn ystod y prynhawn ar yr un diwrnod croesawyd Y Prifardd Selwyn Griffith yma i roi sgwrs i blant Bl. 4.

Gweithgareddau codi arian ar gyfer costau i fynd â'r plant i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai.

Nos Iau, 2 Ebrill: cynhaliwyd Noson Bingo lwyddiannus. Yn ystod y noson cafodd Miss Bethan Williams o ddosbarth y babanod eillio ei gwallt. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n brysur yn casglu arian i noddi Miss Williams ac i bawb am gefnogi'r noson.

Boreau Coffi. Diolch hefyd i Gwenda, Carole a Carolyn am redeg boreau coffi ar gyfer y pentref yn y Neuadd Gymuned dros y pythefnos diwethaf. Llwyddwyd i godi dros £147 ar gyfer cronfa Caerdydd a bu'r boreau'n boblogaidd iawn gyda rhieni a thrigolion y pentref. Diolch o galon i chi am eu trefnu.

Cynhelir cyngerdd yn Ysgol Brynrefail nos Iau, 7 Mai, yng nghwmni Hogia'r Wyddfa a phlant yr ysgol, yn ogystal gobeithir y bydd Côr lleol yn cymryd rhan. Yr arweinydd fydd Arwel Jones. Tocynnau ar werth yn yr ysgol, pris oedolion: £5; plant ysgol uwchradd: £3.

Ffair. Cynhelir Ffair yn yr ysgol ddydd Sadwrn, 9 Mai gydag amrywiol stondinau. Bydd y gweithgareddau a'r digwyddiadau codi arian yn parhau rhwng rŵan a chanol Mai, gyda'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu gysylltu â'r ysgol.

EILLIO PEN I GODI ARIAN I ANFON YSGOL FECHAN I'R URDD



Mae cymhorthydd o Ysgol Gymuned Penisarwaun yn cymryd camau dewr i godi arian i sicrhau bod yr ysgol yn gallu cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai. Bydd Bethan Williams yn eillio ei phen fel rhan o weithgareddau'r ysgol i sicrhau bod grŵp cân actol blwyddyn 4, 5 a 6 yn gallu fforddio teithio i lawr i'r brifddinas i gystadlu am y tro cyntaf erioed.

Meddai Miss Williams: 'Mae'r plant wedi gweithio'n eithriadol o galed dros y misoedd diwethaf, ac mae'r llwyddiant yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir wedi bod yn hwb mawr nid yn unig i'r ysgol ond i'r pentref cyfan. Mae'n bwysig iawn i'r gymuned bod y plant yn cael cyfle i gystadlu'n genedlaethol, ac os yw cael eillio fy mhen yn helpu i godi digon o arian i anfon bws i Gaerdydd, rwy'n fwy na hapus i'w wneud.'

Gyda 60 o ddisgyblion yn yr ysgol, a'r rhan fwyaf o'r uned iau yn cymryd rhan yn y gân actol, mae Ysgol Gymuned Penisarwaun yn un o'r ysgolion lleiaf i anfon criw mawr i gystadlu yn yr Eisteddfod eleni, a chyda'r daith yn mynd i gostio

ymhell dros fil o bunnau, dywed y Prifathro, Gareth Fôn Jones, bod cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar y gweill i dalu am y daith.

'Mae'r syniad o gael cyfle i berfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm wedi tanio dychymyg y plant, a rydan ni i gyd fel ysgol yn gobeithio y bydd modd codi'r arian mewn pryd i dalu am y daith. Mae mil o bunnau'n swm mawr i ysgol a chymuned fechan fel ni. Mae haelioni a bodlonrwydd Bethan i gael eillio'i phen yn siŵr o'n helpu ni i gyrraedd y targed.'

'Dyma gychwyn yr ymgyrch i godi arian a thros yr wythnosau nesaf, byddwn yn rhedeg nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys cyfres o weithgareddau ar gyfer y teulu cyfan yn yr ysgol ar 7-9 Mai. Rydym yn benderfynol o gyrraedd y targed a sicrhau bod plant Ysgol Penisarwaun yn cael y cyfle i gymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.'

Am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol dros yr wythnosau nesaf, neu i gefnogi'r ymgyrch, cysylltwch â'r ysgol ar 01286 870 879.

CYMORTH AR GAEL I LWYDDO YNG NGWYNEDD

Ar ôl cynorthwyo mwy na 100 o bobl ifanc i sefydlu busnes neu beilotia syniad am fenter dros y tair blynedd diwethaf, mae'r fwsariaeth Llwyddo'n Lleol yn dod i ben yn ei ffurf bresennol. Mae'r fwsariaeth - sy'n cael ei ariannu ar hyn o bryd gan Raglen Gweithredu Gymunedol Gwledig Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Gwynedd a'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear - wedi llwyddo i helpu dros 100 o bobl dan 30 oed i roi cynnig ar syniadau busnes newydd mewn cymunedau ledled Gwynedd.

Mae Emma Duffy o Waunfawr yn un ynghyffwrdd o'r rhwng ysgol wedi elwa o gefnogaeth bwsariaeth Llwyddo'n Lleol. Mae Emma yn Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni Cae

Newydd Equine Solutions Cyf, sy'n cynhyrchu a gwerthu bwyd arbennig o wair a gwellt lleol ar gyfer ceffylau ac anifeiliaid fferm eraill.

Wedi iddi adnabod bwch yn y farchnad pan gafodd hi drafferth i brynu'r fath gynnyrch yn lleol, sicrhodd Emma fwsariaeth Llwyddo'n Lleol a'i ddefnyddio er mwyn cyfrannu at gostau sefydlu ei busnes.

Dywcdodd Swyddog Datblygu Bethan Jones, sy'n gweithio i Menter a Busnes:

'Mae prosiect Llwyddo'n Lleol wedi rhoi cyfle arbennig i unrhyw un o drigolion Gwynedd dan 30 oed i roi cynnig ar syniad sydd ganddynt am fusnes. Holl syniad y prosiect yw rhoi cyfle i bobl gael rhoi cais ar redeg eu busnes eu hunain.'

Er bod y rhaglen bresennol yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bydd rhaglen newydd ac changach yn cychwyn ym mis Ebrill, fel rhan o raglen Llwyddo yng Ngwynedd. Bydd prosiect "Llwyddo yng Ngwynedd: Mentro" yn gweithio gyda theuluoedd fferm; plant dan 10 oed; pobl ifanc rhwng 20 a 30; grwpiau cymunedol a'r rhai sydd wedi eu tangyflogi fel pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; pobl sy'n derbyn budd-daliadau analluogrwydd; pobl sydd wedi eu cofrestru yn anabl a phobl sydd wedi ymddeol yn gynnar. Mae prosiect "Llwyddo yng Ngwynedd" yn rhoi cyfle i bobl dderbyn cefnogaeth ac arweiniad am sefydlu menter, yn ogystal â darparu bwsariaeth o hyd at £1,000. Os oes gennych chi syniad am fenter, yn byw yng Ngwynedd ac yn perthyn i un o'r grwpiau a restrir uchod, cysylltwch â Bethan Jones, ym

Menter a Busnes ar (01248) 672607 neu e-bostiach: bethan.eluned@menterabusnes.co.uk am ragor o wybodaeth.



Defnyddiodd Emma Duffy fwsariaeth Llwyddo'n Lleol i helpu sefydlu ei busnes.

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR, LLANRUG. Nos Fawrth, Ebrill 14eg yn y Sefydliad Goffa estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Phyllis Elis. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau oherwydd y gwyliau. Llongyfarchwyd y tîm Dartiau, sef Enid, Olwen ac Ann ar gyrraedd y rownd nesaf, sef y rownd Genedlaethol ym Machynlleth ym mis Mai.

Atgoffwyd yr aelodau sy'n mynd i'r wyl Pum Rhanbarth, Sadwrn, Mai 9fed yn Ysgol Friars, Bangor. Cynhelir noson Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon yn y Groeslon ar Fai 15fed i gychwyn am 7yh. Pris £2 yn cynnwys raffl a phaned.

Ein siaradwraig wadd oedd Gwenllian Roberts o'r Ganolfan Ailgylchu, Cibyn. Yn wreiddiol o'r Waunfawr ond bellach yn byw yn Llanrug.

Cafwyd sgwrs eithriadol o ddifyr a bywiog ganddi am y modd gorau o sut i ailgylchu popeth bron, 'Ail-gylchwn dros Gymru' gan gychwyn efo'r bun gwyrdd sy'n cael ei wagio bob wythnos. Y nod yw ei gasglu efallai pob pythefnos gan mai dim ond defnyddiau na ellir eu hailgylchu a roddir ynddo bellach.

Yna cyflwynwyd i ni y bocsus glas i ailgylchu defnyddiau sych megis papur, gwydr, plastigion a chaniau. Pwysleisiodd Gwenllian fod angen golchi'r poteli a'r plastigion. Y mae modd cael mwy o'r bocsus glas ond i chi ymofyn yn y Ganolfan Ailgylchu.

Adeg yma o'r flwyddyn y mac'r bun mawr brown yn handi gan fod pawb wrthi'n garddio. Y mae'r rhan fwyaf ohonom wedi cael y bun bach brown hefyd i ddal ein gwastraff bwyd. Gellir gwagio'r bun hwn i'r bun mawr brown er mwyn cynhyrchu compost naturiol o'r safon uchaf.

Am wybodaeth pellach am y gwasanaeth cysyllter at Ddesg Gwastraff Ailgylchu ar 679872 neu e-bost

ailgylchu@gwynedd.gov.uk
Diolchwyd i Gwenllian gan Phyllis a hyderir y bydd pawb yn cofio'r neges ac y byddwn oll yn 'Ailgylchu dros Gymru'. Diolchwyd i'r genod am y baned. Enillydd y raffl oedd Jean Roberts.

Ar Fai 12fed byddwn yn ymweld â Pherlysiau Llŷn ac i ddilyn gyda bwffe yn Taro Deg. Bydd y bws ym Mhenisrwaun am 5.35, Llanrug 5.40 gan godi aelodau ym Mhontrhythallt, Tal y Bont, y Sefydliad Coffa a'r Post. Mae angen dewis melysfwyd, felly cysyllter ag Ann Thomas ar 673929. Pris y trip fydd £16.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth Mehefin 9fed gyda Ffair Ategolion (Accessories), eitemau i'w gwerthu am £1 i £2 gyda'r elw yn mynd tuag at y Gangen a Chancr y Fron.

DIOLCHIADAU

Dymuna Eirwen a theulu y diweddar Evan Williams, 1 Bryn Gro, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled.

Diolch i'r Parchedig Robert Townsend am ei wasanaeth ac i Mr Derek Jones am ei deyrnged deimladwy yn yr eglwys. Dymunant hefyd ddiolch i Nyrsys Llanberis a Gofalwyr 'Caredig' am eu caredigrwydd tuag at Evan yn ei waeledd.

Bydd y rhoddion a dderbyniwyd ef cof am Evan yn cael eu rhoi i Feddygfa Llanberis a'r gweinyddesau, Eglwys Llanrug a'r Band. Diolch i E.W. Pritchard, Llanberis, am y trefniadau trylwyr.

Dymuna David a Sarah Roberts, Warrington, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau o Lanrug a'r ardal ac Ynys Môn am y cardiau a'r anrhegion hael a gawsant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Jack Mathews a Sue Owen a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl i Rebecca a

Sophie, sef Mrs Joan Mathers, Brookfield, Ffordd Glanffynnon.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Dymuniadau gorau i Jake Burston, Bryniau Fawnog, fydd yn 21ain oed y mis yma ac i Clifford Williams, Awelon, ar ddathlu ei 70 mlwydd oed yn ddiweddar. Beth yw'r gyfrinach am edrych mor dda?

MYNWENT EGLWYS LLANRUG - APEL. Mae'r gost o gynnal y fynwent hon bellach yn fwy na £1,500 y flwyddyn a'r Eglwys sy'n gorfod codi'r arian yma. Os dymuna unrhyw berson gyfrannu at Gronfa'r Fynwent, efallai er cof am rywun a fu'n

annwyl i chi, fe fyddwn yn ddiolch gar iawn. Gellir anfon unrhyw gyfraniad, yn daladwy i Eglwys Sant Mihangel, i'r trysorydd, Mrs Beryl Roberts, 20 Stad Glanffynnon, Llanrug; rhif ffôn: 01286 677163. Diolch yn fawr.

CAPEL Y RHOS. Oedfaon mis Mai: 3ydd - Y Gweinidog a gweinyddir Cymun. 10fed: I'w drefnu. 17eg: Y Gweinidog. 24ain: Mr Eurfryn Davies. 31ain: Mr Merfyn Jones
SEFYDLIAD COFFA
Enillwyr Clwb 100 mis Ebrill
1) Mrs J Jones, Disfwlfa £20. 2) E Jones, Terfynnau, Talybont £7
3) E Roberts, Glanfa £5

TEITHIAU 'NABOD BRO

Croesi bawb o'r ardal a thu hwnt. Addas i deuluoedd a phlant dros 5 oed (neu gario rhai 'fengach!') Tâl: £1 am bob oedolyn. Plant am ddim gydag oedolyn. Elw tuag at Ysgol Gynradd Llanrug. **TAITH 1 ARDAL LLANRUG:** 8fed o Fai, 6:30pm. Cyfarfod Cefn Ysgol Gynradd Llanrug. **TAITH 2 ARDAL BRYNREFAIL:** 22ain o Fai, 6:30pm. Cyfarfod Maes Parcio ger Pont Penllyn/Craig yr Undeb. **TAITH 3 ARDAL LLANBERIS:** 12fed o Fehefin, 6:30pm. Cyfarfod Maes Parcio Castell Dolbadarn. (Trefnir rhagor cyn diwedd tymor yr haf.)



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C.

mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286**

672076 i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

neu

e-bost: williams@parliament.uk

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

ARVONIA



• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.

• Rhaglen Triplau Dyddiol.

• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.

• Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud; archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: **01286-675175** • Ffacs: **01286-671126**

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

O SLAMBAR SELWYN

Cwta flwyddyn yn ôl roeddwn i yn dathlu pen-blwydd go arbennig ac mi gefais y profiad annisgwyl o gael cwmni nifer o ffrindiau mewn parti a drefnwyd heb yn wybod i mi mewn gwesty cyfagos. Do, mi gefais sioc, ond sioc bleserus iawn.

Wrth gwrs, mi gefais nifer o anrhegion hefyd a phawb yn dymuno hir oes i'r hen wr a oedd wedi camu dros riniog y pedwar ugain. Noson ddifys a chofiadwy iawn.

Syndod i mi ar achlysuron o'r fath ydi fel y mae rhai yn gallu meddwl am anrhegion gwahanol. Un ffrind i mi wedi sicrhau tocyn awyren i Myra a minnau gael hedfan o Faes Awyr Caernarfon dros 'Y Dref', ia, hen dref y Cofis, fel y caem ei gweld o'r awyr yn hytrach na throedio ei strydoedd. Do, mi wnes i fwynhau hedfan dros yr hen dre yn fawr iawn, ac fe ddaeth y profiad â sawl atgof yn ôl, yn enwedig o hedfan dros yr Oval.

Anrheg arall a dderbyniom oedd dau docyn i bensynwyr fynd ar y trê i gopa'r Wyddfa. Dwi wedi manteisio ar y cyfle i gadw'r ddau docyn gan obeithio cael mynd i'r copa yn ystod yr haf, a chael gweld y gwesty newydd yr un pryd.

Roedd Euron wedi trefnu bod copi gwreiddiol o'r *Times* yn cyrraedd ar union ddiwrnod fy mhen-blwydd. Ia, copi o'r *Times* a gyhoeddwyd ar 19 Mai, 1928, a oedd yn digwydd bod ar ddydd Sadwrn. Fel arfer mae diwrnod fy mhen-blwydd i yn cyd-fynd â diwrnod Ffincal Cwpan Pêl-droed Lloegr, ac roedd Caerdydd a Portsmouth yn chwarae yn Wembli y llynedd. Ond er i mi chwilio'n ddyfal drwy dudalennau'r *Times*, Sadwrn 19 Mai 1928, doedd na'r un gair am bêl-droed. Ond, yn naturiol mae yna sawl erthygl ddiddorol yn y papur, ond braidd gormod o sylw i'r Farchnad Stoc. Dyma un hysbyseb diddorol!

A widow lady offers comfortable home in Hampshire to a Gentleman

near New Forest. Lovely garden, Garage, Convenient Golf. 5Gns a week inclusive'. Tipyn o fargen? Tybed?

Ymhlith y cardiau fe dderbyniais un diddorol iawn gan Ann Wiliam, gweddw y diweddar Brifardd Aled Rhys Wiliam. Ann, wrth gwrs, yn un o blant Bro'r Eco. Cerdyn ydi hwn sy'n datgan sut le oedd yma a beth oedd prisiau y gwahanol bethau yn 1928, e.e. Peint o gwrw: 2 geiniog; litr o betrol: 11/2; potel o gin: 60 ceiniog; pwys o jam: 3 ceiniog; tocyn sinema: 6c; stamp: 11/2c.

Fe sgoriodd Dixie Dean 60 o goliau i Everton, y pencampwr. Blackburn Rovers a enillodd y Cwpan. Fe gyhoeddwyd *Lady Chatterley's Lover* gan D.H. Lawrence ac fe ddaeth Disney â Mickey Mouse i'r byd. Roedd cân Al Jolson, 'Sonny Boy' ar y brig ac fe dorrodd Malcolm Campbell y record ar dir o 206.35 milltir yr awr yn Daytona, America.

Fe welwyd papurau punt a chweugain am y tro cyntaf. Roedd 'Brylcreem' ar werth ac yn boblogaidd iawn - 'brilliant cream' oedd yr hysbys. Fe ddarganfyddwyd penicillin gan Alexander Fleming ac fe welwyd teledu lliw gan John Logie Baird am y tro cyntaf. Roedd yna siom yn Eisteddfod Genedlaethol Treorci gan na chafwyd teilyngdod yng nghystadleuaeth y Gadair ond roedd yna ddathlu yn Nyffryn Ogwen, gan i Caradog Prichard ennill y Goron am yr ail flwyddyn yn olynol.

Ac yn 1928 roedd gyrwyr trê yn cael £3.50 o gyflog a merched yn y ffatrioedd cotwm yn cael £1.25. Yn 1928 hefyd y ganwyd Tommy Docherty, y pêl-droediwr, a Shirley Temple, y gantores, ac ar 19 o fis Mai, yn Gwynfryn, Bethel, taith deud adnod o Gapel yr Annibynwyr, y dois innau i'r hen fyd 'ma. A dwi'n ymfalchio yn y ffaith fy mod i'n parhau i fynychu'r gwasanaethau yno ar y Sul.

Oes, mae gen i le i ddiolch am gael oes mor faith a chael nerth ac iechyd i fwynhau fy mywyd. Mi alla i ddweud yn berffaith onest i mi gael y fraint o weld pob man yr oeddwn am ei weld yn yr hen fyd 'ma, ac hefyd i mi

gael cyflawni popeth, a mwy na hynny hefyd, o'r hyn yr oeddwn yn awyddus i'w cyflawni. Os ydi'r camau yn fyrrach, mae'r atgofion yn felys iawn a diolch amdanyn nhw

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DYWEDDIAD:

Llongyfarchiadau i Rhian Davies, merch Dennis a Mair Davies, Ael y Glyn, Llanberis ac wyres i Richard a Gwyneth Evans, Ty'n Buarth ar ei dyweddiad â Kelvin Jones, Garnedd, Deiniolen.

YSGOLORIAETH. Estynnwn longyfarchiadau calonnog iawn i Rhian Elin George, Sŵn yr Engan ar ennill ohoni Ysgoloriaeth Heddlu Gogledd Cymru. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn yr hydref pan fydd yn cychwyn ar ei hastudiaethau mewn Cymdeithaseg a Chymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor.

DIOLCH. Dymuna Muriel Evans, Cae Gwyddel, ddiolch yn fawr iawn i deulu, cyfeillion a chymdogion am y cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 70 oed.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn ystod y misoedd diwethaf, cafwyd amrywiaeth diddorol o gyfarfodydd. Yn dilyn dathliadau'r Nadolig a swper yng Nghlwb Golff Caernarfon gydag adloniant gan Jonathan Davies gwahoddwyd Dafydd Whiteside Thomas i gyfarfod Ionawr i roi sgwrs am John Haslam o ardal Llanrug.

Mwynhawyd cwmni Rhiannon Parry o Benygroes yng nghyfarfod Chwefror. Teitl ei sgwrs oedd 'Hynt a helynt y nodwydd ddur'. Bu'n olrhain ei diddordeb mewn pwytho darluniau a chafwyd ganddi arddangosfa o nifer o enghreifftiau a greodd dros y blynyddoedd.

Dathlu Gŵyl Ddewi fu hanes yr aelodau yn eu cyfarfod fis

Mawrth. Cafwyd cinio ardderchog yn y Caban a chwmni Dyfan Roberts gyda sgwrs hwyliog a diddorol am ei yrfa i gloi'r noson.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

YMWELIAD. Mwynhaodd nifer dda o'r aelodau a ffrindiau ymweliad â Theatr Seilo nos Fawrth, Mawrth 31ain i berfformiad o gynhyrchiad olaf Cymdeithas y Gronyn Gwenith, sef cyflwyniad o waith y Parchg Harri Parri 'O Garreg Boeth i Borth yr Aur'.

Cafwyd cyfle hefyd i bwrcasu llyfr 'Portread o Harri Parri a'i waith' a baratowyd fel teyrnged i'r awdur gan W. Gwyn Lewis ar ran y Gymdeithas - cyfrol i gydnabod ei ysbrydoliaeth, ei anogaeth a'i lafur diflino i Gymdeithas y Gronyn Gwenith am 32 o flynyddoedd.

GWASANAETH Y PASG. Gwasanaethwyd yn oedfa'r Pasg, nos Sul Ebrill 12fed gan y Parchg Gwilym Parry, Llanrug. Cafwyd pregeth rymus ganddo a gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

OEDFAON MAI

- 10 : am 5.30, Mrs G. Alwena Williams, Llanddona
- 17: am 5.30, Mr Merfyn Jones, Caernarfon
- 24: am 5.30, Parchg S. O. Hughes, Bae Colwyn
- 31: am 2.00, Parchg Olwen Williams, Tudweiliog

PLYGU'R ECO. Gair i atgoffa mai tro Brynrefail fydd plygu rhifyn Mehefin o'r *Eco* ar nos Iau Gorffennaf 2il. Cysyllter â Gwyn Hefin Jones am yr amser o'r dydd y byddir yn dechrau ar y gwaith.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Baged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon

Ffôn: 01286 673190

Symudol: 07774 925502

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

C Y M A N F A ' R
ANNIBYNWYR. Cynhelir y Gymanfa bnawn Sul, 17 Mai, am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis. Bydd y bws yn cychwyn o Gapel Ebeneser, Deiniolen am 1.15; Penisarwaun am 1.20; Cwm y Glo am 1.25 a chyrraedd Stryd Fawr Llanberis am 1.35. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

COFIO EIRA MAWR 1979. Roeddwn i, Buddug Thomas, 5 Rhydfadog, newydd roi genedigaeth i fy mab, Michael, ar Mawrth 9, 1979 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dechreuodd bluo eira a gobeithiwn y buaswn yn medru mynd adref, ac mi gefais. Daeth yr eira i lawr yn drwchus wedyn. Dim trydan, cael benthg stôf baraffin bach gan fy nhaid i ferwi dŵr i wneud poteli i'r babi.

Roedd Michael yn bythefnos oed cyn y medrwn fynd â fo allan am y tro cyntaf oherwydd y tywydd drwg.

DIGWYDDIAD O BWYS! Roedd cymaint o falchder ymhlith y gynulleidfa yn Eglwys Crist Llandinorwig, brynhawn dydd Mawrth, 24 Mawrth a phe bai priodas go iawn yn cael ei chynnal yno. Ond dau ddisgybl o flwyddyn 4 a 5 yn Ysgol Gwaun Gynfi, sef Enlli Roberts a Gwydion Morris, oedd canolbwynt y seremoni ffug mewn gwirionedd, dan ofal y Parchg Robert Townsend, y ficer lleol.

Cafodd Lynne Hughes, yr athrawes ddosbarth, y syniad o gynnal priodas gyda'r plant 8-10 oed cyn y Nadolig, gan feddl y byddai'n cymryd tua pythefnos i'w threfnu. Ond, mewn gwirionedd, fe gymrodd yn agos i chwe wythnos! Wrth gwrs,

dydi hynny'n fawr o syndod o gofio'r gwaith paratoi'r gwahoddiadau, y chwilio am ddillad, argraffu trefn y Gwasanaeth a gwneud yr holl addurniadau blodau ffug a'r tocynnau oedd yn angenrheidiol.

'Ia, yn ogystal â dysgu am briodas fel rhan o'n thema addysg grefyddol y tymor hwn, yr oedd hi'n dipyn o fenter busnes hefyd gan fod rhieni a ffrindiau'n fodlon talu i gael bod yn dystion i'r digwyddiad a chael 'brecwast' priodas yn neuadd yr ysgol wedyn,' meddai Lynne.

Gweinyddodd Mr Townsend y seremoni o ddifri ac roedd yn gefnogol iawn i'r syniad oherwydd y profiad a'r addysg bersonol a chymdeithasol a gai'r plant o gymryd rhan yn yr achlysur byw.

'Bu'r plant yn hynod o frwdfrydig o'r cychwyn ac, wrth gwrs, roedd y merched yn mwynhau cael gwisgo'n grand (ffrog brenhines Carnifal Deiniolen 25 mlynedd yn ôl oedd y briodferch yn ei gwisgo, a 'veil' ei nain!) a dwi'n meddwl ein bod ni i gyd wedi cael budd o'r achlysur gan fod pynciau fel dylunio a thechnoleg, mathemateg, chwedloniaeth Gymraeg (hanes Rhys a Meinir a Dwynwen) oll wedi eu cynnwys ym mhrysurddeb trefniadau'r diwrnod,' ychwanegodd Lynne Hughes, sydd hithau'n priodi dros y Pasg. 'Mae cymaint o waith wedi'i wneud i drefnu'r naill briodas a'r llall dwi'n meddwl - yr unig wahaniaeth yw y byddwn ni'n cael tystysgrif ar y diwedd!' meddai.

Pob lwc iddi hi'n wir a diolch iddi am fynd i'r drafferth i drefnu dwy briodas ar yr un pryd!

DYMUNA Helen, Kelvin, Shân, Einir a Rhian ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yr ymweliadau a'r holl gardiau a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli Richard Arfon (Dic Bach), 4 Y Bwthyn, yn ddiweddar.

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones am arwain yr angladd, i Seindorf Arian Deiniolen am gyfeillio yn ystod y gwasanaeth ac i Iolo Owen, Trefnwyr Angladdau Roberts & Owen, am y trefniadau trylwyr.

Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at waith Sefydliad Prydeinig y Galon.

CLARA ROBERTS. Dymuna Gwynfor a Jean a theulu y ddiweddar Clara Roberts, Bwlch Uchaf, Deiniolen, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt o golli Chwaer, Mam a Nain annwyl iawn. Llauer o ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau, negeseuon, llythyrau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Waunfawr ac Ymchwil y Galon. Diolch i'r Parchedigion Marcus Wyn Robinson, William Lewis a John Pritchard am arwain y gwasanaeth ddydd yr angladd. Diolch yn arbennig i Geraint Morris am ei garedigrwydd dyddiol. Diolch hefyd i Laura Hosker a Ciss Rowlands am fod yn gymdogion caredig. Diolchwn i Dylan a Meinir Griffith, Ymgymrwyr Angladdau, Penisarwaun am drefniadau hynod o barchus a thrylwyr, bu'n gymorth a chysur

mawr i ni fel teulu ar adeg mor drist. Diolch o galon i bawb.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i bawb a fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu'r ddiweddar Mrs Clara Roberts, Bwlch Uchaf, yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl iawn.

DYMUNIADAU gorau i Alaw, merch Eifion a Siân Huws, Rhos Faenol, yn dilyn ei phriodas â Matthew ar 11 Ebrill yng Ngwesty'r Deganwy Quays. Byddant yn ymgartrefu yng Nghaer a phob lwc iddynt i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Lois Regan a Catrin Llewelyn a fu'n rhan o dîm llwyddiannus pêl-droed genethod Llanrug dan 12 mewn cystadleuaeth bêl-droed genedlaethol a gynhaliwyd yn y Rhyl dros benwythnos y Pasg.

SARA MAI A'R MONIARS. Bydd Sara Mai a'r Moniars yn canu yn Y Bedol, Bethel, ar nos Wener, 15 Mai i godi arian i Ysgol Gwaun Gynfi. Cynhelir Ocsiwn yn ystod y noson hefyd i godi arian at yr ysgol. Cost mynediad fydd £5.00 trwy docyn. Tocynnau ar werth gan yr ysgol neu gan aelodau o'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon.

DYMUNA Eifion Williams, Rhydfadog, ddiolch yn fawr i'w deulu a ffrindiau am y caredigrwydd ar ôl ei lawdriniaeth a chyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i feddygon a staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd a diolch o galon i bawb.



Y briodferch (Enlli Roberts) yn cyrraedd yr eglwys gyda'i 'thad' (Harri Marzelos Jones).



Y plant yn edrych yn smart ar ddiwedd y Seremoni, gyda'r Parchg Robert Townsend.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Y briodferch (Enlli) gyda'i morynion, Chloe, Lian, Amy, Ceinwen, Leanne a Ffion.

BEIRDD A CHERDDORION DYFFRYN PERIS

Fel yr addewais tro y cerddorion yw hi y mis hwn, ac roedd amryw ohonynt yn Nyffryn Peris yr amser hwnnw. Mae'n rhaid dweud fod diddordeb mawr mewn cerddoriaeth yn y cyfnod a chynifer o rai gyda lleisiau godidog yn gweithio yn y chwareli. Gwŷr o ardaloedd Môn, Eifionydd ac hefyd o wlad Llŷn. Hefyd roedd angen mawr am gorau yn y capeli a do, fe godwyd corau eithaf egniol.

Y fendith fwyaf a gafwyd i gerddoriaeth oedd i'r Parch John Roberts, Ieuan Gwyllt, ddyfod yn weinidog i Capel Coch, Llanberis, yn Awst 1865. Un a fu'n arweinydd y gân a chôr-feistr am flynyddoedd maith oedd Thomas Phillips o Nant Peris. Cerddor arall a ystyrid yn arbennig o alluog oedd William Owen, Blaenyddol, Llanberis. Roedd o nid yn unig yn arweinydd côr, ond hefyd yn gyfansoddwr amryw o donnau ac anthemau. Ond nid oedd yn yr un cae, fel y dadleuai rhai, â'r Hen Phill, fel y galwyd Thomas Phillips.

Un arall pur alluog yn y byd cerdd oedd Hugh Jones, Tŷ Du, Llanberis. Hwn oedd tad Dewi a Gutyn Arfon.

Cerddor arall o'r hen ddyffryn oedd Eos y Ceiri, fe gyfansoddodd ef lawer iawn o donnau cynulleidfao, ond fe aeth i Efrog Newydd a bu yno am flynyddoedd maith.

Nid oes fawr ddim sôn am unawdwyr yn nechrau'r cyfnod yr ysgrifennir amdano. Ond fe ddaeth lliaws cyn diwedd y cyfnod. Y mae un baledwr a fu'n dod i Ffair Nant am flynyddoedd maith, sef yr hen Dic Dywyllt, ac am hynny y mae yn cael yr anrhydedd o fod yr unig un o safon yn y blynyddoedd cynnar hynny.

Mae'n ofynnol i mi enwi yn awr yr Unawdwyr a ddaeth yn bur enwog ac a fu'n canu mewn

Cyngherddau ac Eisteddfodau yn gyson am flynyddoedd maith. Un o'r rhain oedd Thomas Padarn Roberts, neu fel y gelwid ef gan bawb oedd yn ei adnabod, Twm Bach Mericia. Fe'i ganwyd yn y flwyddyn 1866 a daeth yn un o denoriaid enwocaf Dyffryn Peris. Roedd ganddo hefyd gôr meibion yn Chwarel Dinorwig yn y blynyddoedd o 1906 hyd 1915.

Cerddorion eraill o'r ardal a ddaeth yn enwog gan aros hyd yn bur ddiweddar ar gof gwerin oedd Eos Marchlyn; Evan Jones, Cantwr; Bob Ffowc; Eos yr Hendy; Jack Pritchard; Eos Elidir; Dafydd Morris; Wiliam Roberts; meibion Bwlch Gwynt a William Ellis. Will El a enillodd y wobwr yn Eisteddfod Lerpwl yn 1884 am ganu 'O Rudder Than The Cherry'.

I ddiweddu rhaid cyfeirio at y ffaith bod yna bedwar ar hugain o gorau meibion yn y chwareli yn Llanberis yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Dau o'r rhain oedd Côr Toffat, dan arweiniad Robert Ffowc, a Chôr Twll Dwndwr, dan arweiniad Robert Ellis, Caer Bythod. Cynhaliai'r ddau gôr yma gyngerdd bob mis yn Neiniolen er mwyn rhoddi cymorth i deuluoedd mewn angen.

Roedd yna hefyd gerddorfa yn Llanberis yn cael ei harwain gan John Brwyniog Jones, sef prif organydd Capel Coch. Y mae yna dôn o'r enw 'Llanberis' a gyfansoddwyd cyn y flwyddyn 1850.

Fel y gwelwch, nid wyf wedi dweud dim am y Bandiau Pres, o'r cyntaf, sef Band Brynrefail er nad dyna ei enw swyddogol, tan yr un diweddaraaf. Mac cu hanco wedi ei roddi mewn gwaith arall, felly wnaf i ddim ond am gyfeirio atynt, ond mae'r hanes yn werth ei ddarllen.

R. ELWYN GRIFFITH

CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

Cyfleoedd i ddefnyddwyr cadair olwyn fwynhau cefn gwlad ac arfordir gogledd Cymru

Gall pobl sy'n defnyddio cadair olwyn ymuno â chyfres o deithiau yng nghefn gwlad dros y misoedd nesaf – gan ddechrau yng ngwarchodfa natur Nant y Pandy yn Llangefni dydd Sadwrn, 19 Ebrill am 2 o'r gloch ypnawn.

Mae'r saith digwyddiad yn wahanol ac yn adlewyrchu amrywiaeth gogoneddus tirweddau gogledd Cymru. Bydd wardeniaid cefn gwlad yn cynnig cymorth ymarferol a sgwrs am y nodweddion bywyd gwyllt, hanesyddol ac archeolegol ar hyd y teithiau.

Dywedodd Hywel Roberts, Rheolwr Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber, sy'n cydlynu'r teithiau yr haf hwn: 'Bu'r teithiau yma'n boblogaidd ers sawl blwyddyn. Mae treulio amser mewn amgylchedd naturiol yn gymorth i gael gwared ar straen ac yn hwb i iechyd meddyliol a chorfforol. Dwi'n gobeithio y bydd y digwyddiadau hyn yn bleserus, ac yn annog defnyddwyr cadair olwyn, eu teuluoedd a'u ffrindiau i ddod yn ôl dro ar ôl tro.'

Y Saith Taith

Ebrill 18: Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy i Lyn Cefni, Llangefni, Ynys Môn.

15 Mai: Y Lôn Goed, Chwillog,

Gwynedd.

16 Mai: Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber, Gwynedd.

4 Gorffennaf: Llyn Alwen, Conwy.

24 Gorffennaf: Dinorwig i Lanberis, Parc Cenedlaethol Eryri.

14 Awst: Coed Cefnamlwch, Tudweiliog, Gwynedd.

16 Medi: Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Ynys Môn.

Wrth gyfeirio at y daith gyntaf yn y gyfres, meddai Gareth Evans, Warden Cefn Gwlad Ynys Môn: 'Mae llwybrau pren Nant y Pandy yn ddelfrydol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn ac yn cysylltu efo'r llwybr seiclo newydd i lyn Cefni. Mae yna gyfoeth o fywyd gwyllt i bawb ei weld a'i glywed ar hyd y daith.'

Mae taflen sy'n cynnwys gwybodaeth am y saith digwyddiad ar gael gan Wasanaeth Ymholiadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 0845 1306 229 neu e-bostiwrch enquiries@ccw.gov.uk.

Mae angen i ddefnyddwyr cadair olwyn archebu llefydd ar y teithiau a'r cyntaf i'r felin fydd hi!

Trefnir y digwyddiadau gan bartneriaeth, sy'n cynnwys Cyngorau Sir Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, Cyngor Cefn Gwlad ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Côr y Waun

yn cyflwyno

Er Hwyllo'r Haul

(gan Robat Arwyn)

yng nghwmni

ALWEN DERBYSHIRE (Soprano)

IWAN WYN PARRY (Bariton)

NORMAN WILLIAMS (Llefarydd)

GALERI CAERNARFON

Nos Sadwrn • MAI 9^{ed} am 7.30

Mynediad £12. • Pensiynwyr a Phlant £10.

**TOCYNNAU AR WERTH YN Galeri CAERNARFON
NEU GAN AELODAU'R CÔR (01286) 650545**

Yr Elw er budd AMBIWLANS AWYR CYMRU

BWRDD YR IAITH
CYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Nodir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

LLONGYFARCHIADAU i Lucy Thomas, merch Helen a Barry Thomas, Stryd Newton, wedi iddi lwyddo i ennill ei Doethuriaeth (PhD) yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Mae Lucy wedi arbenigo mewn Llenyddiaeth Eingl Gymreig y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'r Ugeinfed Ganrif.

DIOLCHIADAU. Dymuna Helen Parry ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

DIOLCHIADAU. Dymuna Muriel Roberts ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

HOFFAI Iwan Wyn Williams, Carlinig, ddiolch i bawb am yr anrhegion a llu o gardiau a dderbyniwyd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Wyn Williams, Carlinig, ar ennill Ysgoloriaeth i astudio am radd yn Ysgol y Gymraeg, ym Mhrifysgol Bangor. Bwriad Iwan yw astudio Cymraeg a Cherdoriaeth. Llongyfarchiadau hefyd i'w chwact, Caryl Wyn Williams, ar lwyddo i dderbyn gradd M.A.

mewn Troseddeg Gymharol a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Bangor eleni. Graddiodd Caryl gyda anrhydedd mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol yn 2007, a derbyn Ysgoloriaeth i fynd yn ei blaen i astudio gradd M.A. Mae nawr yn gweithio fel Swyddog Prawf ac yn astudio tuag at radd mewn 'Community Justice (Probation)'. Mae Mam a Dad yn falch iawn o'r ddau, da iawn chi a phob lwc i chi'ch dau yn y dyfodol.

YSGOL DOLBADARN

Ffair Iechyd. Cynhaliwyd Ffair Iechyd yn yr ysgol yn ddiweddar. Yr oedd y Gwasanaethau Masnachol wedi paratoi sampl o bob dim sydd ar fwydlen yr ysgol ac roedd nifer o bobl wedi dod i redeg stondinau yn y neuadd ar faterion ym ymwneud â iechyd. Braf oedd derbyn cefnogaeth mor dda i'r noson. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson a diolch arbennig i staff y gegin am baratoi yr holl fwyd blasus. Roedd llawer o'r rhieni yn awyddus iawn i fod yn blant ysgol unwaith eto!

Llwyddiant yn yr Urdd. Bu nifer o ddisgyblion o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadlaethau Eisteddfod Yr Urdd yn ddiweddar, yn gystadlaethau llwyfan a gwaith celf a chreffft. Diolch i'r staff am eu hyfforddi. Mae gwaith ffotograffig gan Zoe Wood wedi ennill y wobwr gyntaf yn y Sir ac wedi ei anfon i'r Eisteddfod Genedlaethol gynhelir yng Nghaerdydd eleni.

Ydy'r bechgyn yn eich tŷ chi'n darllen digon? Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn yr Amgueddfa

Lechi ar gyfer gweithdy creu rap. Cawsant fore difyr ac mae CD o'r gwaith wedi ei anfon i'r ysgol. Yr dilyn hyn daeth Mr Martin Daws i'r ysgol i weithio ar greu rap efo Blynnyddoedd 5 a 6. Roedd hwn yn rhan o brosiect i hybu darllen ymhlith bechgyn 9-11 oed. sy'n cael ei hybu gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Cafwyd ymweliad hefyd gan ddau awdur—Steve Barlow a Steve Skidmore—mae'r ddau yn enwog am ysgrifennu llyfrau doniol i blant. Ewch i edrych ar eu safle gwe ar www.the2steves.net.

Theatr Frân Wen. Yn gynharach yn y tymor bu'r cwmni uchod yn cyflwyno y ddrama ddiweddaraf i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2. Teitl y ddrama oedd Martha Drafferthus ac roedd yn sôn am ferch o'r enw Gwen oedd yn poeni am bob dim. Drwy gymorth ei chath, Martha, fe ddysgodd i fod yn eneth llawer mwy hyderus.

Dysgu am Tsieina. Mae'r plant yn nosbarthiadau Mrs Brookes a Miss Edwards wedi dysgu llawer am Tsieina yn ddiweddar. Fel rhan o thema'r dosbarthiadau ar Tsieina, daeth Ali Thomas o Lanberis i'r ysgol i rannu ei phrofiadau pryd y bu iddi weithio a byw yn Tsieina ugain mlynedd yn ôl. Roedd yno yn dysgu Saesneg i'r Tsieineaid.

Gwelodd y plant luniau oedd ganddi o'r wlad. Dysgodd hwy i rifo i 10 yn Tsieineaid a sut i ddweud *Helo, Diolch a Hwyl Fawr*. Cafodd y plant gyfle i chwarae gêm 'mae Mei Ling yn dweud—rhowch eich dwylo ar eich pen ayyb' mewn Tsieineaid. Daeth â bisgedi ffortiwn i'r plant. Rydym yn ddiolchgar iawn i Ali am roi o'i hamser i ddod a rhoi gwers i'r plant. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Y Pasg Yn Y Bala. Bu Blynnyddoedd 3 a 4 ar ymweliad â Choleg Y Bala i gael dysgu stori'r Pasg drwy brofiadau uniongyrchol. Ar ôl taflu cotiau a dail palmwydd i groesawu Iesu i Jerwsalem aeth pawb i ystafell i fyni'r grisiau i ddysgu am y Swper Olaf ac i flasu'r bwydydd.

Wedyn aeth pawb allan i'r ardd i actio Iesu yn cael ei ddal yng Ngardd Gethsemane.

Roedd tair croesbren ar fryncyn ger y Coleg a hanes y croeshoelio arnynt. Dychwelyd wedyn i'r coleg i ganfod y maen wedi symud o geg yr ogof a'r bedd yn wag.

Roedd pawb yn cael teisen Basg cyn dychwelyd yn y bws ar ôl diwrnod prysur a chofiadwy iawn.

Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion. Cynhelir y **Ras Hwyaidd a Noson Gemau** yn y Ganolfan nos Iau 7 Mai. Dewch i gefnogi'r noson ac ymuno yn yr hwyl.

Eisteddfod Ysgol Dolbadarn Ar ddydd Iau, 12 o Fawrth, roedd Ysgol Dolbadarn yn cael Eisteddfod. Eisteddfod gyntaf Ysgol Dolbadarn ers tro. Roedd y plant a'r staff i gyd yno yn y neuadd i'r achlysur.

Roedd yna faner fawr yn dweud 'Eisteddfod Ysgol Dolbadarn 2009' ar y wal. Hefyd roedd y llwyfan wedi cael ei addurno. Roedd yna sawl cystadleuaeth wahanol yn digwydd, fel llefaru, canu a chelf. Roedd eitemau i blant o'r Meithrin i Flwyddyn 6.

Y beirniad oedd Mrs Ceiriog sy'n dysgu yn yr Uned. Roedd Miss Susan wedi gwneud rhuban i bawb oedd yn cael cyntaf, ail neu drydydd. Roedd pawb yn cystadlu yn ei dŷ, sef Padarn, Peris a Seiont. Roeddwn i eisiau i

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar Worth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgol Bangor 2009

Cyhoeddodd Prifysgol Bangor yr enillwyr yr wythnos hon ar gyfer ystod eang o Ysgoloriaethau Mynediad a Theilyngdod. Cafodd cyfanswm o 76 Ysgoloriaeth eu dosbarthu i fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn astudio mewn 46 o ysgolion a cholegau ledled Cymru a Phrydain Fawr. Mae'r ysgoloriaethau sydd yn amrywio rhwng £1,000 a £3,000 yr un, wedi eu dyfarnu ar sail arholiadau Ysgoloriaeth Mynediad Prifysgol Bangor a gafodd eu sefyll mewn ysgolion a cholegau ym mis Ionawr.

Bydd enillwyr Ysgoloriaethau Mynediad a Theilyngdod yn derbyn yr arian ysgoloriaeth pan fyddant yn cychwyn eu hastudiacthau ym Mhrifysgol Bangor yn yr hydref. O'r ardal hon daeth bu'r canlynol yn llwyddiannus: Iwan Wyn Williams, Ysgol Brynrefail, Llanrug; Gwobr Ysgol y Gymraeg; (£1,000), Rhian Elin George, Ysgol Brynrefail, Llanrug; Ysgoloriaeth Heddlu Gogledd Cymru; (£3,000)

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Crynodeb o gofnodion cyfarfod mis Chwefror a gynhaliwyd yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug. Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Cyflwyniad gan Mr Ffranccon Williams (FfW), Cyngor Gwynedd: Croesawyd Mr Williams i'r cyfarfod. Dechreuodd FfW drwy egluro fod 6,300 o dai Cyngor yng Ngwynedd a bod y rhan fwyaf ohonynt mewn cyflwr gwael. Yn 2002, penderfynwyd y byddai yn rhaid i dai Cyngor gyrraedd safon arbennig sef 'Safon Ansawdd Tai Cymru' ac, yn ôl FfW, nid yw tai Cyngor Gwynedd, ar gyfartaledd, yn agos at y safon hwn. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyfrifo bod angen buddsoddiad o £136 miliwn er mwyn cyrraedd y safon ac y byddai'r swm hwn yn cynyddu i £440 miliwn dros y 30 mlynedd nesaf er mwyn cynnal y safon. Eglurodd FfW fod gan y cyngor £55miliwn felly maent yn wynebu diffyg o £81 miliwn.

Credai Cyngor Gwynedd mai'r ffordd o ddatrys y broblem hon yw i drosglwyddo'r tai i gymdeithas tai newydd, 'Cartrefi Cymunedol Gwynedd' a fyddai yn cael ei sefydlu yn arbennig ar gyfer hyn gan fod modd i gymdeithasau tai gael benthyciadau na sydd yn agored i'r cynghorau sir ac am fod cymdeithasau tai yn cael cadw yr holl arian rhent y maent yn ei dderbyn sydd yn wahanol iawn i sefyllfa'r Cyngor Sir. Felly, bydd y gymdeithas tai newydd yn gallu ariannu'r gwelliannau sydd eu hangen i'r tai.

O ganlyniad, mae penderfyniad angen ei wneud gan denantiaid Cyngor Gwynedd - naill ai i aros gyda'r cyngor heb yr addewid y bydd y tai yn cyrraedd Safon Tai Cymru neu i drosglwyddo at y

gymdeithas tai newydd ble bydd addewid o welliannau yn safon y tai. Mae'r Cyngor yng nghanol ymgynghori gyda'r tenantiaid ac mae addewid clir na fydd rhenti yn codi ar raddfa gwahanol na fyddent o dan y sustem bresennol.

Bydd staff presennol yr Adran Dai yn cael eu trosglwyddo i'r gymdeithas tai ble bydd eu pensiwn yn cario ymlaen a ble bydd cyfleoedd am swyddi newydd. Mae pob gwasanaeth presennol, fel wardeniaid, yn cael eu gwarchod a'u sicrhau o dan y corff newydd. Bydd y ffordd o asesu angen ar gyfer y tai hefyd yn aros yr un fath o dan y drefn newydd. Bydd tenantiaid presennol y Cyngor Sir hefyd yn dal i fod gyda'r hawl i brynu'r tai a bydd eu nifer o flynyddoedd disgownt fel na fyddai'r trosglwyddiad wedi digwydd.

Eglurodd FfW y disgwylir y bleidlais yn y mis/ddeufis nesaf. Bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn gwbl annibynnol o'r Cyngor. Bydd canlyniad y bleidlais mor syml a mynd gyda'r mwyafrif. Gofynnwyd a oedd rhai cynghorau wedi gwneud hyn eisoes. Atebodd FfW fod nifer yn y de eisoes wedi trosglwyddo a bod Conwy hefyd wedi trosglwyddo. Dywedodd hefyd bod cynghorau Wrecsam ac Abertawe wedi gwrthod yn y gorffennol. Eglurodd bod gwelliannau yn safon y tai sydd wedi trosglwyddo eisoes i'w gweld.

Ymweliad gan Dr Esyllt Llwyd, Dr Penrhyn Jones a Dr Robin Parry.

Cyrhaeddodd Dr Esyllt Llwyd a Dr Penrhyn Jones o feddygfa Waunfawr/ Ffordd yr Orsaf a Dr Alwyn Parry o feddygfa Llanberis/ Ffordd Glanffynnon. Dechreuodd y sgwrs gyda'r

tri yn cyflwyno eu hunain ac yn egluro eu bod yn bryderus iawn am gais a gafodd ei wneud yn ddiweddar i agor fferyllfa ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Yn fyr, byddai hyn yn golygu y byddai meddygfa Waunfawr yn gorfod colli un doctor oherwydd y golled mewn incwm y byddai hyn yn ei greu ac efallai y byddai agor fferyllfa yn Llanrug yn arwain at feddygfa Llanberis yn cau eu cangen yn Llanrug ac yn sicr yn arwain tuag at doriad yn eu horiau agor.

Eglurodd y Meddygon eu bod yn bryderus iawn am hyn gan y byddai yn arwain tuag at golled yn y gwasanaeth meddygol ac y byddai yn creu anawsterau mawr i bobl hŷn gan y byddai pobl sydd yn byw o fewn milltir i'r fferyllfa yn gorfod cael eu meddyginiaeth o'r fferyllfa, felly yn gorfod teithio o'r feddygfa i'r fferyllfa i dderbyn eu meddyginiaeth. Ar hyn o bryd, does neb yn gwybod yn lle ar Ffordd yr Orsaf y bwriedir agor y fferyllfa felly mi fedr rhywun orfod cerdded cryn dipyn.

Rhannwyd copi o'r adroddiad a wnaethant, a gofynnwyd i'r Cynghorwyr ei darllen ac ymateb i'r GIG erbyn diwedd y mis. Dywedodd y Meddygon y byddent hwy yn ymateb yn negyddol iawn yn ffurfiol erbyn diwedd y mis. Darllenwyd y cyfeiriad allan i bawb. Diolchodd y tri meddyg am y cyfle i gael mynychu'r cyfarfod, a gadawsant y cyfarfod.

Aeth y Cynghorwyr ymlaen i drafod y cais a phenderfynasant i wrthod y cais yn ffurfiol ar y sail y byddai lefel y gwasanaeth yn dioddef a'i fod yn peri bygythiad i ddwy feddygfa leol ac efallai yn peryglu busnesau lleol craill.

Gwelliannau i gae chwarae Cwm y Glo: Dywedwyd na fu ymateb i'n llythyr diwethaf i'r

pensaer a chytunwyd fod y sefyllfa yma wedi mynd ymlaen yn rhy hir ac y dylid cysylltu gyda'r pensaer yn dweud os na chlywir ganddo erbyn ein cyfarfod nesaf, ein bod yn cymryd nad ydyw eisiau cario ymlaen gyda'r prosiect. Dywedwyd fod yn rhaid tacluso'r safle ac y byddai angen rhan o gyllideb y flwyddyn nesaf er mwyn gwneud hyn. Dywedwyd eto mai mwy o fannau parcio mae trigolion Cwm y Glo wir ei angen.

Llwybrau Cyhoeddus:

Dywedwyd fod y grant i wella Llwybr Ogwen wedi ei gymeradwyo a byddai'r gwaith yn dechrau yr wythnos nesaf. Dywedodd y byddai'r gwaith yn costio £3,700 ac y byddai'r Cyngor yn ariannu hanner hyn. Daeth y cais newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

- Diwygio Amod 4 ar ganiatâd cynllunio er mwyn ymestyn y cyfnod preswyllo o 10.5 mis i 12 mis - Maes Carafannau Brynteg. Gwrthwynebu ar y sail y byddai'n newid pwrpas y lle.

Tendrau torri gwair a llwybrau 2009-2010:

Agorwyd yr amlenni am y tendrau a nodwyd y prisiau ar ffurflen bwrpasol. Ar ôl trafodaeth, cytunwyd rhoi'r cytundebau i'r canlynol: Caeau chwarae: Gareth Wyn Jones.

Y Mynwentydd: Wyn Lewis.

Llwybrau cyhoeddus: Dafydd Lloyd Owen.

Heddlu: Dywedwyd fod yr heddwys cymunedol wedi bod yn edrych ar safle garej Hafod ac wedi addo cysylltu gyda'r perchennog i drafod problemau diogelwch y safle. Cadarnhawyd y byddai'r heddwys yn mynychu'r cyfarfod mis nesaf. Darllenwyd rhestr o bethau i'w trafod gyda'r heddwys a phenderfynwyd ychwanegu eitemau arno.



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dia'n costio dim i' gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



**H. E. HUGHES
A'I FEIBION**

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CYNGOR CYMUNED LLANDEINIOLLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 6ed o Ebrill. Dechreuwyd trwy weddi gan Richard Llwyd Jones

Cofnodion cyfarfod Mawrth. Cywiriad: gofynnodd Phyllis Ellis am gael cywirio 'rhoddwyd popeth ar lyfr yn ystod wythnos...' i 'rhoddwyd popeth ar lyfr yn ystod y Mis a thalu ar ddydd Gwener cyfrif mawr'. Cafwyd y cofnodion, fel arall yn gywir.

Materion o'r cofnodion

Cyflwynwyd adroddiad Gareth Roberts yn egluro'r sefyllfa bresennol ynglŷn â'r map hanes/llwybrau a'i awgrymiadau am lansiad swyddogol. Cyflwynwyd taflenni llwybrau Parc Padarn a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Llanberis ar y cyd â Chyngor Gwynedd

Toiled Deiniolen. Cyflwynwyd llythyr Gwynedd yn dweud bod hwn yn gyfleuster hanfodol i'r cyhoedd, yr henoed, yr anabl a theuluoedd ifanc. Bod gan eu Cyngor ddyletswydd i amddiffyn iechyd a hylendid y cyhoedd. Bwriedir eu cau ar 31ain o Hydref!! Dywedodd Len Jones na chafodd gyfle i gefnogi'r ddeiseb leol. Gallai Cwmni Adfywio Deiniolen fod yn gefnogaeth gref i'r ddeiseb. Penderfynwyd gofyn i Wynedd be fuasai eu cyfraniad hwy pe bai mudiadau eraill yn cyfrannu, a beth fuasai eu cyfraniad hwy at ddefnyddio cyfleusterau eraill fel tafarnau?

Afon Goch, Deiniolen. Cyflwynwyd ateb Hywel Williams AS a chopi o'i lythyr at Edwina Hart. Amlygwyd anfodlonrwydd o'r sefyllfa a phenderfynwyd ysgrifennu ato eto i bwysleisio ar yr angen i newid y ddeddf sy'n caniatáu y math yma o sefydliad. A gofyn hefyd pam bod cartrefi fel yma yng ngefn gwlad yn hytrach nac mewn trefi mawr neu ddinasoedd?

Biniau graeanu - ateb Gwynedd bod galw mawr am rhain. Cawn wybodaeth bellach pan fydd yr asesiadau wedi eu cwblhau.

Trem Eilian, Brynrefail - ateb Gwynedd gyda chanlyniad asesiadau a'u casgliad y buasai crocsfan yn creu mwy o berygl i gerddwyr a gyrwyr.

Safle Dryll, Deiniolen. Adroddwyd bod ceir ymwelwyr y lle yn cael eu parcio o flaen Tai Fictoria, Deiniolen, ac yn creu anawsterau i'r trigolion. Dywedodd Len Jones bod Gwynedd yn bwriadu gosod llinellau melyn ar hyd y ffordd o Dai Fictoria at Cae Cerrig gan bod pob ymgais arall i ddiddymu'r parcio wedi methu.

Gohebiaethau eraill

Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, cyflwynwyd eu 'Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft - Mawrth 2009', penderfynwyd cylchredeg copi i bob aelod.

Ysgol Gymuned Penisa'rwaun - derbyniwyd eu cais am gefnogaeth i'w Cân Actol fynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Penderfynwyd cyfrannu £50. Cyfadran Gofal Gwynedd - Pleidlais stoc tai - 72% o blaid trosglwyddo i ddwylo preifat a 28% yn erbyn.

Yr Heddlu, cyhoeddwyd cyfarfod cyhoeddus ym Meddgelert ar 19eg o Fai. Diddymu cloddiau caeau yn Rhiwlas - atgoffa Gwynedd. Safle ail-gylchu Rhiwlas - atgoffa Gwynedd o'u haddewid a hysbysu Pete Simpson.

Cynllunio

Cais Afon Goch 'Am dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnyddio adeiladau allanol presennol fel llety byw ychwanegol yn gysylltiedig â defnydd preswyl yr eiddo.' Trafodwyd y problemau a achoswyd gan y sefydliad yma gan gyfeirio at ferch a adawyd i grwydro'r pentref a chreu helynt ond yr unig resymau a allai'r Cyngor eu defnyddio i wrthwynebu'r cais yw:

• Gorddatblygu, rhy fawr yng nghefn gwladDim lle parcio i staff ac ymwelwyr.

• Penderfynwyd ei wrthwynebu am y rhesymau yma ac ychwanegu bod cais cyffelyb wedi ei wrthod o'r blaen.

Adroddwyd bod Gwynedd wedi colli eu hapêl yn erbyn caniatáu loriau mawr i gario coed o goedwig Blaen y Cae.

Ceisiadau eraill a dderbyniwyd: Bwthyn Cae Ffynnon, Clwt y Bont - codi estyniad y tu cefn. Amlygodd Gwilym Williams bryder cymdogion bod y draeniau'n mynd trwy'r tir yma - hysbysu Gwynedd.

Tandderwen, Llanddeiniolen - sied amaethyddol. Marillo, Penisa'rwaun - cadw'r sied.

Ceisiadau a ganiatawyd: Estyniad - Berthen Gron, Deiniolen.

Ymestyn y cartref presennol trwy godi estyniad 2/3 llawr, dymchwel y gegin bresennol, gwneud rhodfa a mannau parcio ychwanegol ynghyd â thirweddau a gwaith draenio - Cartref

Penisa'rwaun. Adeilad cysylltiedig â'r stablau - Y Stablau, Llanrug.

Materion eraill

Dywedodd Phyllis Ellis bod dull Gwynedd (neu'r contractwyr) o *hackio* canghennau yn gwneud golwg ar ochr ffyrdd - gofyn a oedd ffordd well.

Dywedodd Richard Llwyd Jones bod Tim Pêl Droed dan 16 Ysgol Brynrefail drwodd i ffeinal Cwpan Cymru - eu llongyfarch a dymuno'n dda iddynt.

Seindorf Arian Deiniolen. Llwyddodd y Band, mewn cystadleuaeth yn Abertawe yn ddiweddar, i fod yn un o ddau fand allan o ddeg i gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth Brydeinig y Harrogate. Penderfynwyd eu llongyfarch a dymuno'n dda iddynt hwythau hefyd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf :- Sed o Fai. (Cyfarfod blynyddol)

NEWYDDION CÔR DINAS BANGOR

r nos Sadwrn, 25 Ebrill, yr oedd yr aelodau yn rhan o gôr o dros wyth gant yn y cyngerdd mawr i gorau meibion yn Neuadd Albert, Llundain. Yr arweinydd oedd Alwyn Humphreys.

Dirprwy Arwcynydd Côr Meibion Dinas Bangor yw Gwilym Lewis o Gaergybi. Gwilym yw cadeirydd gogledd Cymru o'r Gymdeithas Corau Meibion ac fe gafodd y fraint o arwain y côr mawr yn y cyngerdd mewn perfformiad o drefniant enwog John Tudor Davies o 'Gwahoddiad'. Mwynhawyd penwythnos yn Llundain ac, wrth gwrs, y cyngerdd.

Ar y nos Sadwrn blaenorol canodd y Côr mewn cyngerdd ym Mae Kinmel pan sefydlwyd Trefor Lewis fel Llywydd Byd Eang Cymdeithas y Cosurwyr -

y Magic Circle. Prif westai'r noson oedd y digrifwr Ken Dodd. Cafwyd noson hynod o ddiddorol a doniol yn ei gwmni. Mwynhaodd Ken Dodd ganu'r côr, yn enwedig fel rhagarwciniaid i'w ymddangosiad ar y llwyfan.

Bydd y Côr yn canu mewn cyngerdd yn eglwys Sant Ioan, Llandudno ar nos Fawrth 5 Mai - hwn fydd y cyntaf o bedwar cyngerdd yn yr eglwys yn ystod yr haf. Bydd y Côr hefyd yn ymddangos yn Venue Cymru, Llandudno, pan fydd Cymdeithas Moduron Clasur Prydain yn cyfarfod yno. Arweinir y Côr yn y ddau gyngerdd gan Gwilym Lewis oherwydd bydd yr Arweinydd James Griffiths oddi cartref yn arholi am saith wythnos yng Ngwlad Thai.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

DARLLEN DIFYR AC YSGYTWOL

Mae cyfle i rai sy'n ymddiddori mewn llenyddiaeth i rannu syniadau gydag adar o'r unlliw mewn noson arbennig yn Llyfrgell Caernarfon. Bydd Grŵp Ysgrifennu a Darllen yn cyfarfod yn y llyfrgell ddydd Iau, 14 Mai, rhwng 7-8.30pm dan arweiniad yr awdur, Sian Northey. Bydd yn gyfle i bobl fwynhau darllen ac ysgrifennu

yn ogystal â rhannu syniadau am lyfrau ac ysgrifennu creadigol mewn awyrgylch hamddenol a hwyliog. Mae croeso cynnes i bawb.

Trefnwyd y cyfarfod gan Gynllun Hyrwyddo Llenyddiaeth Gwynedd drwy gydweithrediad rhwng yr Academi a Chyngor Gwynedd.



TAITH BLWYDDYN 4 i RHYD DDU

Aethom ni ar daith gerdded o Rhyd Ddu i Llanberis dydd Gwener Mawrth 13eg. Morfydd a Cemlyn oedd yr arweinyddion. Pan gyrhaeddodd y ganolfan yn Rhyd Ddu cawsom ddillad glaw ac esgidiau cerdded. Cawsom weld ystafelloedd cysgu y genod a'r hogiau. Dyma ni i gyd yn mynd yn ôl ar y bws i ddechrau y daith.

Dechreuom ni ar y llwybr Snowdon Ranger. Roedd y llwybr yn igam ogam a llechi ar y llwybr. Gwelsom ddarn o blastig oedd yn gadael y dŵr lifo i lawr y mynydd. Dyma ni gyd yn aros i gael ffrwyth neu rhywbeth arall i fwyta. Aethom i fyny'r mynydd. Roedd pawb wedi blino yn barod a dechreuodd fwrw glaw ac roedd y gwynt yn dechrau chwythu. Dyma ni i gyd yn gweld arwydd oedd yn dweud Llanberis. Cerddom i fyny drwy'r gwair a mynd trwy mwd. Roedd pawb wedi blino ac yn edrych ar Llyn Cwellyn. Cyrhaeddodd wrth ymyl wal a cawsom ein cinio mewn lloches. Ar ôl dod allan o'r lloches roedd fy nghoesau'n drwm fel led. Aethom i lawr a gwelsom fwrthyn bach ac roedd na bobl yn gorffwys mewn pabell bach ar y ffordd i lawr. Gwelsom Cwm Brwynog. Roeddwn yn teimlo ychydig yn drist wrth edrych ar y tai sydd yn adfeilion erbyn hyn.

Gwelsom Llyn Padarn ond roedd Llanberis yn edrych yn bell iawn. Dyma ni yn pasio fferm yna cyrhaeddodd Llanberis. Cawsom fisgedan bach wrth ymyl yr hostel ieuencid. Wedi cyrraedd yr ysgol roedd pawb wedi blino. Eisteddodd pawb i dynnu eu pethau ac aeth pawb adra. Ryda ni yn edrych ymlaen i gael mynd i'r Ganolfan yn Rhyd Ddu eto. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi gweithio yn dda gyda'i gilydd.

JESSICA WILLIAMS BLWYDDYN 4



Eisteddfod Ysgol - enillwyr yr adrodd unigol o Flwyddyn 2.



Rhai o'r disgyblion fu'n cystadlu'n yr Urdd ar gystadlaethau llwyfan a gwaith celf.



Paratoi ar gyfer y Swper Olaf yn y Bala.



Ali Thomas o Lanberis yn sôn wrth y plant am fyw yn Tsieina.

Seiont ennill oherwydd dwi yn y tŷ hwnnw!

Roedd plant Blwyddyn 2 a 3 yn canu 'Ffrindiau' yn y gystadleuaeth parti canu. Yn gyntaf roedd Peris ac yn ail Seiont ac yn drydydd Padarn. Roedd gweddill yr adran Iau yn Canu 'Ers cyn bo co', ers cyn bo cyfri'. Roedd pawb wedi gweithio'n galed i ennill y mwyaf o bwytiau (roedd pawb yn actio fel bod na rhyfel bach yn erbyn y tai eraill). Roedd rhai wedi cynnwys symudiadau ac roedd rhai efo rhai yn canu unawd ar un pryd. Yn y diwedd, parti Peris oedd yn gyntaf a Phadarn a Seiont yn gydradd ail.

Pa dŷ wnaeth ennill y Steddfod da chi'n meddwl? Padarn (O na, nhw wedi ennill eto!). Yn ail roedd Peris ac yn drydydd Seiont (Bw hw!)

Roeddwn i'n hapus bod yna Eisteddfod a Padarn wedi ennill! meddai Becky Roberts. Ysgwn i pam?

Yn y diwedd dywedodd Mrs Ceiriog: 'Roedd pawb yn grêt. Diolch am gystadlu, roedd yn anodd iawn gwneud penderfyniadau ac roedd yn braf iawn eich gwylio.

Diolch eto.'

LOREN ROBERTS BLWYDDYN 2



Disgyblion Blwyddyn 4 yn falch o weld Llanberis o'r diwedd!



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Sychlanhau - Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



CWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

LLANBERIS

parhad o dudalen 10

CYMANFA'R ANNIBYNWYR. Cynhelir y Gymanfa bnawn Sul, 17 Mai, am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis. Bydd y bws yn cychwyn o Gapel Ebeneser, Deiniolen am 1.15; Penisarwaun am 1.20; Cwm y Glo am 1.25 a chyrraedd Stryd Fawr Llanberis am 1.35.

Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

CAPEL COCH. Y Pasg: Cynhaliwyd gwasanaeth cymundeb fore Gwener y Groglith dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg John Pritchard, ac roedd yn braf iawn gweld cymaint o bobl yno. Fore Sul y Pasg, cynhaliwyd oedfa deulu, ac unwaith eto, roedd yn braf gweld cymaint wedi dod yno. Mrs Falmai Pritchard oedd yn arwain yr oedfa. Cafwyd stori i'r plant gan Dafydd Pritchard ac anerchiad gan Andrew Settatee. Darllenwyd gan Sara Jones a Gruffudd Pritchard. Mr Gareth Jones oedd yr organydd. Rhoddwyd wy pasg bach i'r plant. Wedi'r oedfa, cafwyd paned a sgwrs, fel sy'n digwydd bob tro y cawn ni Oedfa Deulu. Gyda'r nos, cafwyd oedfa dan arweiniad y Gweinidog.

Cystadleuaeth: Diolch yn fawr iawn i'r plant am anfon eu lluniau ar gyfer Cystadleuaeth Basg Ysgolion Sul yr Ofalaeth yn Neiniolen a Llanberis. Gofynnwyd i'r plant wneud llun o unrhyw un o olygfeydd Wythnos y Pasg.

Gwefan: Mae gan Capel Coch ac eglwysi craill yr Ofalaeth, sef Cefnywaun ac Ebeneser yn Neiniolen; Nant Padarn, Llanberis; a Rehoboth, Nant Peris, wefan newydd ers mis neu ddau. Mae manylion am weithgareddau'r eglwysi a'r Ysgolion Sul yn cael eu diweddarw'n gyson ar y wefan.

Ar hyn o bryd, mae'r wefan yn cynnwys y lluniau a wnaeth y plant ar gyfer Cystadleuaeth y Pasg. Cyfeiriad y wefan yw gronyn.org. Daw'r enw o enw'r daflen wythnosol a gyhoeddir gan yr Ofalaeth bob Sul, ac os ewch chi i'r wefan, fe welwch gopi o'r Gronyn diweddaraf bob wythnos ynghyd ag ôl rifynnau. Pasiant: Aeth criw o aelodau'r capeli i Theatr Seilo nos Wener i weld cynhyrchiad olaf un Cymdeithas y Gronyn Gwenith, 'O Garreg Boeth i Borth yr Aur - Stori Bywyd Hanner Gweinidog' gan y Parchg Harri Parri. Roedd yn gynhyrchiad arbennig iawn ac yr roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolch yn fawr iawn i Miss Dilys Mai Roberts am drefnu'r ymweliad eleni eto.

Clwb Pysgod Mawr: Cynhelir y Clwb Pysgod Mawr yn Capel Coch am 6.45 o'r gloch ar nos Sul ar gyfer yr ieuencid. Caiff ei gynnal ar y cyd gan eglwysi'r pentref. Ceir hwyl wrth drafod gwahanol rannau o'r Beibl, trwy bob math o gemau a gweithgareddau a thrwy drafodaeth neu ffilm. Daeth tymor y gwanwyn i ben gyda noson Go-carts. Cafwyd hwyl fawr yn y ganolfan Go-cartio ar Stad Cibyn, Caernarfon nos Wener, Ebrill 3. Roedd pawb am y gorau i wibio rownd y trac. Cafodd pawb ddwy ras ac yna roedd y gyrwyr cyflymaf yn cystadlu yn y rownd derfynol. Adam Jones oedd yr enillydd, Siôn Lloyd Roberts oedd yr ail, ac Elliwyd Saynor oedd y trydydd. Diolch yn fawr i Andrew Settatee am drefnu'r noson, a diolch i arweinwyr y Clwb am fynd yno gyda'r bobl ifanc. Cawsant hwy eu ras eu hunain, ond yn ôl rheolau'r Grand Prix arbennig hon, doedden nhw ddim yn cael mynd trwodd i'r rownd derfynol.

'Taith y Groes': Amser cinio

ddydd Gwener y Groglith daeth nifer dda i gymryd rhan yn 'Nhaith y Groes' yn Llanberis. Trefnwyd y digwyddiad gan Dr Graham Thomas, Cwm-y-glo, ar gyfer Eglwys Sant Padarn a Chapel Coch. Cymerwyd rhan gan Andrew Settatee; rhai o bobl ifanc y Clwb Pysgod Mawr; a rhai o'r plant iau.

Dechreuwyd ar lan y llyn, a chyflwynwyd hanes Iesu Grist o'r adeg y cafodd ei draddodi i'w groeshoelio gan Pilat i'r adeg y rhoddwyd ef ar y groes ac y daeth yn ôl yn fyw. Symudwyd o un man i'r llall ar hyd glan y llyn a chroesi drosodd i barc Padarn

a'r llwybr at Ysbyty'r Chwarel. Ar hyd y daith, oedwyd yma ac acw i glywed darlleniad ac i actio golygfa o'r hanes. Daeth y daith i ben wrth yr Ysbyty, a llwyddwyd i ddwyn tystiolaeth i'r hyn a ddigwyddodd ar y Groglith, gan fod llawer o bobl o leiaf wedi gweld y groes yn cael ei chario a chriw o bobl yn ei dilyn. Bydd y plant a'r bobl ifanc yn siwr o gofio'r profiad o gymryd rhan wrth actio'r digwyddiadau mawr.

Diolch i Graham am drefnu, ac i bawb a gymerodd ran ac a ddaeth yno i gerdded ac i fod yn rhan o'r digwyddiad.

GWASANAETH GOFAL CARTREF

Caredig^{cyf}

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

• Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y prawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungoptio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hon Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01296 665 500 (caffi) 01296 665 462 (swyddfa)

Caban^{cyf}

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Croesawyd pawb ynghyd gan yr Is-Lywydd, y Prifardd Selwyn Griffith, a dymunwyd yn dda i Nerys Owen sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac hefyd i Eunice Roberts yn dilyn triniaeth i'w llaw. Y gŵr gwadd oedd Huw Edwards, un o blant Bethel, ond erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon. Cafwyd orig ddifyr iawn yn ei gwmni wrth iddo hel atgofion o'i blentyndod yma ym Methel, gan sôn am nifer o gymeriadau a oedd wedi creu argraff arno. Cawsom lu o hanesion hefyd yn cynnwys troeon trwstan fel aelod o Gôr Meibion Caernarfon a'i ddiddordeb ym myd pêl-droed. Mae wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon ers nifer o flynyddoedd ac yn weithgar iawn yn y gymuned fel Cynghorydd Sir a Chynghorydd Tref. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am sgwrs gartrefol braf gan Jenkin Griffiths. Rol Williams, Waunfawr, fydd y tro nesaf.

MERCHED Y WAWR. Yn absenoldeb y Llywydd, Mair Price, llywyddwyd y cyfarfod gan yr Is-Lywydd, Mair Read. Yn dilyn croesawu pawb, cydymdeimlwyd yn ddiffuant iawn â Mair Price ar ei phrofedigaeth o golli Emyr, ei gŵr, yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Lynne, merch Sheila Roberts ar enedigaeth merch fach, Leusa Siân ac hefyd Nia Môn, merch Sian Davies ar enedigaeth mab bach, Efan Idris. Anfonwyd cofion at Alys Jones a Gwyneth Williams a dymunwyd yn dda i Nancy Williams oedd ar fin dathlu pen-blwydd go arbennig. Dymunwyd yn dda hefyd i blant y pentref sydd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd i lawr yng Nghaerdydd y mis nesaf. Rhannwyd, er gwybodaeth i'r aelodau, nifer o faterion yn ymwneud â'r Mudiad.

Mr John Jones, Cemaes, Ynys Môn oedd y siaradwr gwadd a'i bwnc oedd Y Samariaid. Bu'n siarad yn ddifyr iawn am ei waith fel gwirfoddolwr y gyfundrefn. Difyr oedd deall fod Y Samariaid yn bodoli yn genedlaethol ers dros hanner canrif, a bod y Swyddfa ym Mangor wedi bod ar agor am chwarter canrif. Fe ŵyr pawb bod Y Samariaid yn cynnig cefnogaeth gyfrinachol ac emosiynol i bersonau sydd mewn unrhyw fath o argyfwng, ac roedd pawb yn edmygu'r gwaith amhrisiadwy mae'r gwirfoddolwyr yn gynnig i bobl sydd angen cymorth. Talwyd y diolchiadau gan Gwyneth Jones ac enillydd y raffl oedd Mair Read. Carol Gerecke o Ganolfan Arddio Seiont fydd yn cadw cwmni i'r aelodau y tro nesaf, a gofynnir i bawb ddychwelyd y ffurflen bwyd a'r arian (£12) i'r cyfarfod ar Fai 13eg.

YR URDD. Bu nifer o blant y pentref yn cystadlu eleni yn yr Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd, llongyfarchiadau mawr i bawb am wneud mor dda.

Pob lwc i Alaw ac i aelodau'r 'Ensemble' sef Adam, Alaw,



Llongyfarchiadau mawr i Siôn Emlyn Seron a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar ar gyrraedd ei 'Black Belt' mewn karate. Efo Siôn yn y llun mae Sensai Sara a Master Lynn.

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DIOLCH. A gwyliau'r Pasg erbyn hyn wedi dirwyn i ben, yr oedd yn braf iawn cael mynd hefo blodau ar ein hanwyliaid i'r fynwent ar Sul y Blodau. Yr oedd Mynwent Macpelah Deiniolen yn rhyfeddol o dwt ac yn edrych ar ei gorau. Rhaid canmol Cyngor Gwynedd am y gwaith y maent yn ei wneud arni. Diolch yn fawr iawn iddynt am y gwaith da ac, o gael yr holl flodau ar y beddi, yr oedd yn edrych yn arbennig o hardd.

Y PASG. Ar nos Iau Cablyd, sef y nos Iau o flaen Gwener y Grogllith, cafwyd oedfa Gymun Undebol yn Ebeneser Deiniolen. Mae'n rhaid dweud mai siomedig oedd nifer y rhai a ddaeth ynghyd ond cawsom ein

hatgoffa am yr aberth fawr a wnaed ar Galfaria. Gwasanaeth syml ydoedd o dan ofal ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard, ond er mor syml ydoedd yr oedd yn effeithiol dros ben. Diolch yn fawr iawn i Mr Pritchard ac hefyd i Mrs Margaret Cynfi Griffith am fod wrth yr offeryn.

Sul y Pasg oedd Sul Cyfarfod Pregethu, Cefn y Waun. Yn y bore cawsom gwmni ein gweinidog ac yn yr hwyr y Parchg W.R. Williams, Y Felinheli. Rhoddodd y Parchg W.R. Williams anerchiad i'r plant cyn ei bregeth. Yr oed y ddwy bregeth ar yr atgyfodiad. Diolch yn fawr iawn i'r ddau gennad am eu cenadwri amserol iawn.

Rhidian a Richard yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

EISTEDDFOD Y PENTREF Dymuna holl aelodau'r pwyllgor ddymuno'n dda i Billy ac Ann Hughes, Siop Treflyn, ar eu yhmdeoliad, a diolch am eu cefnogaeth i'r Eisteddfod dros y pymtheng mlynedd diwethaf.

Cynhelir pwyllgor nesaf yr

eisteddfod ar y llog o Fai yn festri'r Cysegr am 7.00 o'r gloch. **LLONGYFARCHIADAU** i John Elwyn Hughes ar dderbyn Doethuriaeth gan Brifysgol Bangor. Y mae'r ddoethuriaeth yn gydnabyddiaeth o'i astudiaeth trylwyr o fywyd Caradog Prichard, a'r astudiaeth o 'Fyd Go iawn Un Nos Ola Leuad'. Bu'r ddau gyhoeddiad yn hynod o boblogaidd.

Dylem hefyd gydnabod ei waith graenus yn ymwneud â gramadeg y Gymraeg a'i olygyddiaeth trwyadl o Gyfansoddiadau a Beirniadaethau yr Eisteddfod Genedlaethol ers sawl blwyddyn bellach.

John Elwyn

Naddaist o'i ddwys lenyddiaeth

— yn raenus,

wir hanes cymdogaeth;

rhoi ffrâm am dy arwr ffraeth, o'i daith arw, doethuriaeth.

R.L.L.J.

LLONGYFARCHIADAU i Richard Llwyd Jones am gipio cadair Eisteddfod Mynytho am gerdd rydd ar y testun 'Gwarchod'.

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn
Ffôn: (01286) 650218

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

CHWILOTA

CLADDU GRIFFITH THOMAS



Yn rhifyn Mawrth o'r 'Eco' holais am wybodaeth ynglŷn â chladdfa'r Parch Griffith Thomas, gweinidog Capel y Bryngwyn, Llanrug. Mae cofgolofn iddo wedi ei hadeiladu rhwng dau ddrws ffrynt y capel, ond doedd dim tystiolaeth ar gael i brofi a gafodd ei gladdu yno. Roedd yr adroddiad byr am ei farwolaeth yn *Yr Herald Cymraeg* ym mis Mawrth 1879 yn amwys iawn, gan nodi y byddai'n cael ei gladdu 'ym mynwent Ymneilltuol Llanrug'. Mynwent y Capel Mawr (Methodistiaid) oedd yr unig fynwent o'r fath, a phrin y byddai gweinidog Annibynwyr yn cael ei gladdu yno!

Bellach, gellir cadarnhau mai o flaen y capel ym Bryngwyn y claddwyd yr hen weinidog, a daeth gwybodaeth am hynny o sawl cyfeiriad. Adroddais yn y rhifyn diwethaf fod casgliad swmpus o wybodaeth wedi ei drosglwyddo i mi gan Ceri Foulkes, Deiniolen, ac erbyn hyn daeth gwybodaeth o ddau gyfeiriad arall hefyd, a'r cyfan yn cadarnhau mai yn y Bryngwyn y claddwyd Griffith Thomas.

Cyfeiriodd Ceri Foulkes at Gyfrol 5 o *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, sy'n rhoi crynodeb byr o hanes holl gapeli annibynnol y fro. Yno, dan hanes y Bryngwyn ceir nodyn bywgraffyddol am y Parch Griffith Thomas. 'Llafuriodd yno yn ddiwyd, heb unrhyw gydnabyddiaeth am ei lafur, a chafodd yr hyfrydwch o weled cyfnewidiad mawr yn yr achos yno. Yr oedd yn ddyn da, fel yr oedd iddo gymeradwyaeth gyffredinol. Claddwyd ef yn ymyl capel Bryngwyn, Llanrug.'

Gan Mrs Megan Roberts, un o aelodau presennol y Bryngwyn, y daeth mwy o

dystiolaeth. Darganfu lyfryn mewn cyflwr go druenus, yn adrodd hanes eglwysi Annibynnol Sir Gaernarfon. Mae'n dyddio o tua diwedd y 1920'au. Ynddo, ceir crynodeb byr o hanes y Bryngwyn, gyda'r wybodaeth ganlynol: 'Yn 1852 cymerodd y Parch Griffith Thomas, Penisarwaun, ofal o'r achos. Rhoddodd 27 mlynedd o wasanaeth heb gyflog o gwbl. Claddwyd ef rhwng dau ddrws y capel yn 1879.'

Daeth Iwan Roberts o Lanrug ar draws cofnod arall am gladdu Griffith Thomas, a hynny mewn dyddiadur. Soniwyd am y dyddiadur hwn droeon o'r blaen yn y golofn hon, sef Dyddiadur Twm Stiniog, sydd bellach yn ddiogel yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Ynddo ceir y cofnodion canlynol:

16 Mawrth 1879. Y Parch Griffith Thomas, Penisarwaun yn marw am naw o'r gloch y bore yn 73 mlwydd oed.

22 Mawrth 1879 Claddu Griffith Thomas, Penisarwaun heddiw yn Bryngwyn, Llanrug. Efe oedd y cyntaf a gladdwyd yn y fynwent hon.

Dyna godi sgwarnog arall felly! Profwyd bellach fod Griffith Thomas wedi ei gladdu rhwng dau ddrws ffrynt y capel, ond, a oedd bwriad gan aelodau'r capel ar y pryd i sefydlu mynwent yno hefyd? Ac a gladdwyd gwraig Griffith Thomas yno yn ddiweddarach?

Gyda diolch i'r tri ohonoch am ddarganfod y ffeithiau sy'n profi'r traddodiad.

Doctor Dail

Cafwyd amryw o sylwadau yn y gorffennol at feddyginiaethau cartref, yn enwedig gwahanol fathau o eli a ddefnyddid at bob math o anhwylder. Yn ddiweddar deuthum ar draws

adroddiad cwest i farwolaeth ffermwr o Ddyffryn Mymbyr. Roedd Hugh Roberts, Cors Ceffylau, Capel Curig wedi disgyn yn farw ar un o gaeau'r fferm yn ystod mis Tachwedd 1895 ar ôl cwyno o boenau difrifol yn ei stumog. Yn y cwest, rhoddai ei chwaer, Mary Roberts, dystiolaeth ynglŷn â chyflwr iechyd ei brawd.

Adroddodd iddo ddioddef yn achlysurol o boenau'n ei stumog, yn enwedig yn ystod gaeaf 1894. Bryd hynny aeth dros y bwlch i Nantperis i mofyn cymorth gan Mr Lloyd Williams. 'He had a bottle of medicine from Mr Williams, Nant Ucha, who is not a registered medical man. My brother was suffering from severe pains in his stomach, but he completely recovered.'

Mae'n ddiddorol sylwi fod Mary Roberts yn ymwybodol nad oedd Mr Lloyd Williams yn feddyg, ond eto'i gyd, yn cael ei gyfrif yn ŵr a allai gynnig meddyginiaeth tuag at boenau'n y stumog. Pwy tybed oedd y Lloyd Williams hwn o'r Nant, ac a oes gan unrhyw ddarlennydd wybodaeth deuluol amdano?

Blychau Tybaco

Daeth cais gan un o'r darllenyddwyr am wybodaeth ynglŷn â blychau tybaco. Mae ganddo yn ei feddiant, flwch gyda'r enw Thomas Roberts, Llechydd, wedi ei naddu arno. Ceir y dyddiad 1819, a'r llythrennau A.P.A.V. Gwelodd amryw o flychau eraill gyda'r un llythrennau arnynt, ond nid cyfeirio at fath o dybaco y mae'r llythrennau. Un awgrym yw mai dull gan smygwyr anllythrennog o ddynodi meddiant o'r blwch yw hwn: 'a pi a fi' hynny yw - y fi piau hwn. Oes rhywun wedi gweld blychau tebyg, neu'n gallu cynnig esboniad gwahanol?

Dyddio Hen Dai

Daeth taflen i law yn cynnig hyfforddiant i'r rhai sydd â diddordeb mewn ymchwilio i hanes hen dai yn siroedd Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych. Mae'n rhan o gynllun a elwir yn

Brosiect Dendrocronoleg Gogledd Orllewin Cymru. Bydd y gwaith yn golygu chwilio ac ymweld â phlastai Tuduraidd, tai ffrâm nenfforch, adeiladau nodweddiadol o Eryri a thai trefol, i gyd drwy ddyddio'r pren o'u mewn.

Gobaith y prosiect yw codi digon o gyllid i ddyddio cwympo coed gwreiddiol o lawer o'r adeiladau hynaf ar draws y rhanbarth o Aberdaron i Gorwen ac o Gaergybi i'r Bermo. Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn chwilio am y tai hynaf, a godwyd cyn canol y 1600'au, yn arbennig y rhai â nenfforch, unrhyw gyn-blasau, tai gyda simneiau ochrol, grisiau tro o gerrig neu saerniaeth ffansi yn y coed toi. Mae'r cyfarfodydd cyntaf - ym Môn a Dinbych, eisoes wedi eu cynnal, a gobeithir cynnal cyfarfodydd eraill yng Ngwynedd a Chonwy yn fuan.

Rheolwr y prosiect yw Margaret Dunn, a dywedodd y bydd y prosiect arloesol hwn yn darganfod gwybodaeth bwysig am hanes hen dai Cymreig. Mae croeso i bawb dros 17 oed, ond rhaid bod yn eithaf ffit a heini ar gyfer rhai agweddau o'r gwaith. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â gwefan www.datingoldwelshhouses.co.uk

Mwy o Hanes Capeli

Gan Gwyn Davies, Llanrug, cefais fenthyl llyfryn a gyhoeddwyd yn 1903 ar Hanes yr Achos yn Tanymaes a Brynmenai. Er mai ardal Y Felinheli sy'n cael y sylw, eto i gyd yr oedd cysylltiadau cynnar â gwaelodion plwyfi Llanddeiniolen a Llanrug.

Prin iawn oedd y boblogaeth yn Llanfair is gaer yn y cyfnod cynnar, ond pan ddechreuwyd gweithio chwael Dinorwig o ddifrif yn chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chario llechi i'w hallforio o borthladd y Felinheli, bu cynnydd sylweddol yn y boblogaeth. I drigolion rhannau uchaf Llanfair is gaer, a rhannau isaf Llanddeiniolen a Llanrug, a arferent gerdded i Lanrug i

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR

MEWNFORIO YR ALMAEN SWEDEN

UNION OLWYNNON CAM BELTS TRYDANOL

SKODA

BMW

PEUGEOT

FIAT

CLUTCHES TYREO

BRECS

ABS

AIR CON

GWASANAETH

BATRIS

YOLYO

MERCEDES

SAAB


Cymhwyter
BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gydreth amodau


MOT


ATA


HELIX


LAW



BOSCH
Service


OFT

Trwy'r cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lic da y gellwch ei fforddio

Siad Glyn, Caernarfon. Gwynedd LL55 2BB
(01286) 673559 www.a-y-m.co.uk

Gwasanaeth
TV Car


GWYNANT
PIERCE

Cynrychiol Coed:
Gatiau, Ffensys ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901


ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

addoli, sefydlwyd capel hwylusach iddynt yn Nhanymaes, ac yn ddiweddarach ym Mrynmenai.

Hefyd gan Gwyn Davies cefais hanes darganfod dalennau o bapur dan loriau tŷ yn Nhan y Coed gyda nodiadau arnynt am hanes sefydlu'r capel yno. Gwilym ap Gwilym oedd yr awdur, pwy bynnag oedd hwnnw, ac fe'i hysgrifennwyd ar gyfer Eisteddfod y Plant yn 1922. Adroddwyd mai ar dir Tan y Coed canol yr adeiladwyd y Ffestri yn gyntaf, a'r capel yn 1901.

Ymysg y papurau hefyd roedd cofnod am farwolaeth Owen Davies, Clawdd Llwyd, Tan y Coed, yn y Rhyfel Mawr. Nodwyd fod yr awdur wedi cael golwg ar fedal a anfonwyd i'w rieni ar achlysur ei ladd yn y rhyfel. Ble tybed mae'r fedal honno heddiw?

Enwau Llafar ar nodweddion naturiol

Fisoedd yn ôl bellach gwneuthum apêl am i'r darllenwyr anfon enwau a ddefnyddid yn lleol am nodweddion naturiol eu hardal: enwau creigiau, llethrau, pyllau mewn afonydd. Cafwyd rhestr o ardal Llanberis eisoes, a'r mis hwn rhaid diolch i Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo, am anfon rhestr a map o bron i ddeg ar hugain o enwau lleol am ardal Cwm y Glo.

Dyma'r rhestr yn gyflawn:
1. Pwll yr hwch. 2. Twll y Gigfran. 3. Cae Bach (hwn oedd Wembli i hogia Cwm erstalwm). 4. Aber Penbont. 5. Cei Llechi. 6. Gors Tŷ Draw. 7. Clogwyn canans. 8. Ogof Pen Gaer. 9. Rallt Fawr. 10. Stepia Mawr. 11. Llwyda Bach. 12. Clogwyn Tŷ

ENWAU LLAFAR – ARDAL CWM-Y-GLO



Draw. 13. Gors Catrin. 14. Aber bella. 15. Eiddaw mawr. 16. Pen bwllch bach. 17. Rhyd mawr. 18. Feston. 19. Rhyd bach. 20. Cwm uchaf. 21. Marddwr mawr. 22. Sglefr fawr. 23. Cwt Hers. 24. Allt Fricsan. 25. Stesion cwm. 26. Pwll lilis. 27. Cecs (Hesg).

Llawer o ddiolch – ond beth am enwau o ardaloedd eraill y fro?

Ffynhonnau

Chafwyd dim ymateb o gwbl i'r cais ynglŷn â sut yr oedd ffynhonnau yn cael eu hagar, na chwaith wybodaeth am ffynhonnau sy'n dal ar ddefnydd heddiw, os oes rhai. Efallai y daw gwybodaeth erbyn y rhifyn nesaf.

Cofiwch anfon unrhyw ymholiad neu hanesyn ynglŷn

ag unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco' i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug,

Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

GWOBR AUR I FAND SYMFFONIG GWYNEDD A MÔN

Mae Band Chwyth Symffonig Ysgolion Gwynedd a Môn wedi dod i'r brig mewn cystadleuaeth arbennig ar gyfer bandiau chwyth ledled Prydain.

Cynhaliwyd rownd derfynol gŵyl bandiau cyngerdd Prydain yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd ar ddydd Sul, 19 Ebrill, gyda chwe band chwyth wedi eu dethol o'r rowndiau rhagarweiniol. Unwaith eto eleni, dyfarnwyd y wobwr aur i Fand Symffonig Gwynedd a Môn dan arweiniad Paul Hughes.

Rhodddwyd yr eisin ar y gacen pan gyhoeddwyd fod y panel wedi dyfarnu fod Band

Gwynedd a Môn yn derbyn tystysgrif arbennig Canmoliaeth Uchel am safon a phroffesiynoldeb eu perfformiad yn ogystal â'r gyfathrach rhwng y band ar arweinydd yn uchel ei safon.

Arweinydd y band yw Paul Hughes gyda John Powell, Dewi Ellis Jones, John Glyn Jones, Richard Edwards a Sally Marshall fel tiwtoriaid.

Dywedodd Dennis Williams, Rheolwr Gwasanaeth Ysgolion William Mathias sy'n darparu'r gwasanaeth ar ran Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn:

'Rydym yn hynod falch o lwyddiant y band – mae'n dyst o dalent ac ymroddiad plant a phobl ifanc Gwynedd a Môn. Mae'r wobwr yma yn gosod Band Chwyth Symffonig Ysgolion Gwynedd a Môn yn flaenaf ymysg bandiau cyngerdd Prydain.'

Daw'r clod yma yn dilyn llwyddiant y band yng nghystadlaethau cenedlaethol eraill a gynhaliwyd yn Warrington, Warwick a Bradford pan ddyfarnwyd y wobwr aur i Fand Symffonig Gwynedd a Môn.

NANT PERIS

Geraint Elis, Cilgerran. Ffôn: (01286) 670726

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwenda, Glanrafon, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am eu caredigrwydd a chefnogaeth yn ystod y misoedd diweddar.

Hefyd, diolch am yr holl gardiau, blodau, anrhegion, galwadau ffon a liffts yn ôl ac ymlaen i Ysbyty Glan Clwyd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cawech groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yewiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m. – 7.30 p.m.
(Llun – Sadwrn)
6 a.m. – 3 p.m. (Sul)

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Cyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
* Ffo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

Cofiwch gefnogi
ein holl
hysbysebwy

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CYMANFA'R ANNIBYNWYR. Cynhelir y Gymanfa bawn Sul, 17 Mai, am 2.00 o'r gloch yn Ffestri Capel Coch, Llanberis. Bydd y bws yn cychwyn o Gapel Ebeneser, Deiniolen am 1.15; Penisarwaun am 1.20; Cwm y Glo am 1.25 a chyrraedd Stryd Fawr Llanberis am 1.35. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

DIOLCH. Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i Mrs Oliver, Mrs Roberts a Miss Jones, i'r mamau ac yn arbennig i blant yr ysgol a chyn-ddisgyblion am ymgymryd â'r gwaith o blygu'r Eco y mis diwethaf.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Julie Denny, Glaslyn, a John Steele, Bryngwyn Mawr a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli eu brawd, David Steele o Lanfairpwll yn frwydychus o sydyn tra roedd ar ei wyliau.

G E N E D I G A E T H . Llongyfarchiadau i Dr Graham a Dr Cassie Thomas, Min-y-Nant, ar enedigaeth mab bach, Gruffudd Morgan, brawd bach i Ceinwen a Gwilym.


YSGOL CWM Y GLO

Roedd prysurdeb mawr yma wrth i flwyddyn 5 a 6, ynghyd â nifer o oedolion, fynd ati i blygu Eco'r Wyddfa y mis diwethaf. Roedd yn brofiad da i'r disgyblion gael gweld sut yr oedd papur newydd yn cael ei roi at ei gilydd ac roeddynt i gyd wedi mwynhau y profiad yn fawr.


Cafodd tri aelod o'r Cyngor Ysgol fynd i Gynhadledd Ysgolion Iach yn Galeri, Caernarfon, yn ddiweddar. Cafodd Corrie, Aiden a Daniel hwyl wrth roi cynnig ar yr offer cadw'n heini. Tra'r oeddynt yno cawsant gyfle hefyd i ymweld â swyddfa cwmni dylunio digidol Delwedd sy'n noddi gwefan yr ysgol. Diolchwn i Mike ac Euros am y croeso.

Cynhaliwyd bore coffi a gweithgareddau noddedig amrywiol i godi arian er mwyn prynu byrddau a meinciau i fuarth yr ysgol. Maent bellach wedi cyrraedd ac aelodau y Cyngor Ysgol fu'n dewis eu lleoliad. Diolch i bawb fu mor ffeind â noddi y plant, a diolch i'r plant am sgipio a beicio!

GWEITHGAREDDAU'R YSGOL



Fern a Holly yn brysus yn plygu'r Eco



Ymweliad a swyddfa 'Delwedd'.



Mae'r meinciau yn boblogaidd!



Cyfle i fynd ar yr offer yn y Gynhadledd Ysgolion Iach.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Gynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310


gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

AGE
Concern

Os byddwch yn cyysylltu â swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chynhyrchion a gwasanaethau Age Concern Enterprises Limited (ACEN). Mae ACEN wedi ei awdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyflwyniad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

Tyrd am dro braf a dysgu am hanes radical pobol Gwynedd

CHWYL DRO!
DYDD SUL 3 MAI, LLANBERIS



Cyfarfod yn Pete's Eats am 11am, wedyn taith / sgwrs dros banad, gan orffen nôl erbyn 3pm

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

PENBLWYDD O BWYS. Llongyfarchiadau i Kelly Griffiths, Tai Glangwna, ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Ann Hughes, Erw Wen, ar ei phriodas ag Andy Gash yng Nghapel y Drindod, Biwmares. Wedyn cynhaliwyd parti yn Neuadd Bentref Llangoed gyda nifer o drigolion Caeathro yn mwynhau eu hunain. Roedd y mis mêl yn Fflorida, UDA. Rŵan maent yn byw yn Llangoed.

PEL-DROEDIWR O FRI. Llongyfarchiadau i Caio Iwan, Carrog, sydd wedi chwarae pêl-droed i dîm hogia ysgol Cymru ym Mhort Talbot, gan ennill 1-0.

CAPEL Y GYMUNED. Bydd yr oedfaon canlynol yn cael eu cynnal ym mis Mai

3: 11.00, Ysgol Sul

10: 11.00 Ysgol Sul

2.00: Parchg Dafydd Hughes

17: 11.00 Ysgol Sul

24: 10.00 Mr John H. Hughes.

31: Dim oedfa nac Ysgol Sul. Croeso i bawb. Y plant i'r Ysgol Sul a phawb i'r oedfaon.

Bydd cyfarfod o Swyddogion y Capel, a fydd yn agored i bawb, am 7.30 yh nos Fercher, 6 Mai yng Nghanolfan y Capel er mwyn agor a chyfri'r pleidleisiau (i'w dychwelyd erbyn 5 Mai!) ynglŷn â'r dewis o ofalaeth i'r Eglwys.

TAID NEWYDD. Llongyfarchiadau i Dafydd Iwan, Carrog, sy'n daid i efeilliaid - Louis Llewelyn a Morgan John, sef plant Telor a Jo yng Nghaerdydd.

CYMGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan Waunfawr ar 8 Ebrill. Y Cyngorwyr Cadi Jones a Clive James oedd yn bresennol. Adroddwyd fod yr holl faterion a godwyd yn y cyfarfod ar 18 Chwefror wedi cael sylw. Cefnogwyd cais cynllunio ar gyfer arwyddion yn Nhyddyn Whisgin ar yr amod eu bod yn ddwyieithog. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r estyniad arfaethedig i 13 Tai Glangwna.

Yn dilyn cyfarfod o Un Llais Cymru nodwyd fod polisi iaith y Cyngor yn y Rhcolau Sefydliad yn cyd-fynd ag anghenion Deddf yr Iaith Gymraeg.

Wrth ymdrin â cheisiadau ariannol, penderfynwyd rhoi £200 i Glwb Rygbi Caernarfon; £100 i Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro; £100 at Gynllun Efc; £50 i Eisteddfod Genedlaethol y Bala; £50 i Theatr Bara Caws a

£200 i Ysgol Bontnewydd (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen).

Gan fod y gwasanaeth bws, a oedd gynt yn cael ei ddarparu gan KMP yn cael ei redeg gan Bws Padarn rŵan, roedd gwahaniaeth mawr rhwng amserau'r bysys a'r amserlen sydd i'w gweld wrth yr arosfan. Cytunwyd cenhadu'r gweithredwr a Chyngor Gwynedd.

Gellir gweld mantolen a chyfrifon y Cyngor ar hysbysfwrdd y pentref.

EISTEDDFOD Y BONTNEWYDD.

Llongyfarchiadau i bawb o Gaeathro a fu'n cystadlu yn Eisteddfod y Bontnewydd dros y Pasg. Ymhlith y cystadleuwyr a'r enillwyr oedd Luned Eryl, Martha Ceiriog, Max, Siôn Dafydd, Betsan Ceiriog, Elan, Erin, Lois ac Ifan.

HELFA WYAU PASG.

Unwaith eto roedd yr Helfa Wyau Pasg yn un llwyddiannus iawn. Aeth rhai o'r helwyr yn syth o Oedfa'r Pasg yn y capel. Eleni roedd yr wyau wedi eu cuddio o flaen Plas Glangwna a mawr oedd y miri a'r hwyl wrth geisio eu darganfod. Wedyn cafodd bawb luniaeth, diolch i deulu estynedig Glangwna am eu croeso a'r lluniaeth. Diolchiadau hefyd i gefnogwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am eu cefnogaeth ariannol barhaol. Heb yr elw o'r Tynfa Misol ni fyddai'n bosibl talu am y digwyddiad - gyda'r mwyafrif llethol o blant y pentref a'r cylch yn rhan o'r helfa eleni. Diolch yn fawr i bawb.

'ALL CHANGE@. Erbyn rŵan 'Bws Padarn', Llanberis sy'n gweithredu gwasanaethau S4 trwy Gaeathro ar ôl i'r cwmni brynu bysus KMP. Gobeithiwn y bydd y bysys yn cadw i'r amserlen.

UN FUNUD FACH

GWARANT

Beth bynnag a wnawn, doedd dim byd yn digwydd. Wyddwn i ddim beth arall i'w wneud. Roeddwn wedi darllen y llawlyfr a dilyn ei gyfarwyddiadau: datod y ceblau; datgysylltu'r plwg trydan; diffodd y cyfrifiadur; aildanio'r cyfan. Roeddwn wedi gwneud popeth, fwy nag unwaith. Ond dal mor farw â'r bedd oedd y monitor, heb na llun na llythyren na lliw. Roedd o wedi bod yn gyndyn o ddeffro yn y bore ers diwrnod neu ddau, ond erbyn hyn roedd wedi diffygio'n llwyr. Fedrai fy holl weiddi a ffraeo ddim ei godi o'i drwmwsg. Doedd dim amdani ond chwilio am fonitor newydd.

Felly dyma ffonio'r siop i holi a gawn i fynd â'r monitor yno, er mwyn cadarnhau ei fod wedi torri cyn prynu un newydd.

'Faint ydi oed y monitor? Sgynnoch chi warant arno?' meddai'r llais clên o ben arall y ffôn. Minnau'n egluro ei fod oddeutu tair neu bedair oed, a bod y warant wedi hen ddarvoud. Ond, er syndod, wedi i mi nodi rhif y peiriant, gwelwyd bod y warant yn dal mewn grym am bythefnos arall. Diolch am hynny, roedd y monitor wedi torri mewn pryd, a chyn diwedd y dydd roedd gen i un newydd sbon yn ei le.

Wrth brynu'r cyfrifiadur, roeddem wedi talu am warant tair blynedd, ac roedd y warant honno'n cyfro'r monitor. Ac er bod papurau'r warant gennyf yn berffaith ddiogel, doeddwn i ddim wedi meddwl edrych arnynt am fy mod yn credu bod y warant wedi dod i ben. Dros y Pasg, buom yn cofio'r modd y talodd Iesu'r pris am ein beiau ni. Wrth gael ei gosbi yn ein lle ar Galfaria, mae wedi sicrhau i ni warant o faddeuant pechodau a pherthynas â Duw. A dyw'r warant hon byth yn dod i ben.

Mae ein calonnau'n dywyll, a ninnau'n fwy di-lun nag unrhyw fonitor marw. Ar sgrin ein bywydau, does dim golwg o lun prydferth yr ufudd-dod a'r cariad y mae Duw yn ei geisio. Ond, trwy drugaredd, mae gennym warant bod yr holl bechodau wedi eu maddau. Nid unrhyw beth y gallem ni ei gynnig i Dduw a roddodd y warant hon i ni. Iesu Grist sydd wedi ei sicrhau trwy farw trosom a thrwy atgyfodi er ein mwyn.

Mae'r pris wedi ei dalu a'r warant gennym. Fe wnaed monitor ein bywyd yn newydd. A thrwy ras Duw, mae gobaith y gwelir arno ufudd-dod a chariad a glendid bywyd wrth i ni ymateb i'r trugaredd a wnaed â ni yn Iesu Grist. Boed i'n geiriau a'n gweithredoedd ddisgleirio er ei glod. Boed i eraill weld lluniau hardd ein gwasanaeth i'n Harglwydd, a darllen geiriau ffyddlon ein tystiolaeth i'n Gwardwr. A phan fydd y sgrin yn dylu, fel y bydd yn sicr o wneud ar adegau, diolchwn am y warant y talwyd y fath bris amdani.

JOHN PRITCHARD

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)
ar 871833
Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Precifet

Hefyd **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrraeddweh Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR CYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun

Y SAMARIAID
(01248) 674985

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Enillwyr mis Mawrth oedd £30: Mrs Mererid Llwyd, Iseilian; £20: A & J Jones, Hafod y Rhug; £10: Mrs Nan Huws Roberts, Madryn, 10 Erw Wen, Caethro.

ADRAN YR URDD. Mae'r Grŵp Disco wedi gwneud yn dda yn y Steddfod Cylch - diolch i Zoe am eu hyfforddi.

Cafodd Aled, Dafydd a Mabon lwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch ac wedyn cafodd Aled ail am wneud model o faes awyr, a cafodd Dafydd ail yn yr adran Ffotograffiaeth yn yr Eisteddfod Sir.

Dymuna'r Adran ddiolch i Siân Williams am eu rhoi ar ben ffordd ac i bob aelod am weithio'n galed tuag at yr Eisteddfod.

DYMUNO'N DDA. Mae Sioned, Ty'n Twll; Anya, Bryn Maen ac Elin, Tŷ Awelog, yn aelodau o Grŵp Dawnsio Disgo Blynnyddoedd 7, 8 a 9 Ysgol Brynrefail. Daeth y Grŵp yn fuddugol yn Eisteddfod Cylch Arfon a Sir Eryri, ac yn awr byddant yn cynrychioli Sir Eryri yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai. Hwyl fawr i'r Grŵp, dawnsiwch eich gorau, genod.

Mae Elgan Rhys, Eryri Wen, yn aelod o Fand Gwynedd a Môn. Yn ddiweddar bu'r band yn cystadlu mewn cystadleuaeth ym Manceinion. Daethant yn fuddugol yno gyda chanmoliaeth fawr.

PRIODAS YN EGLWYS Y WAUN. Dymuniad Nia Parry o Gaeathro oedd cael priodi yn y capel ble roedd ei nain, y ddiweddar Mrs Mair Parry (gynt o Stad Croes y Waun) yn aelod. Dydd Sadwrn y Pasg gwiredwyd ei dymuniad pan briodwyd hi a Neville o Fanceinion yn Eglwys y Waun. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

BRYSIWCH WELLA. Croeso adref o'r ysbyty i Mr Roy Jones, Cynefin, wedi iddo gael triniaeth clun newydd; i Aled Taylor, Baladculyn, Dôl Erddi, wedi iddo gael triniaeth pen

glin, ac i Mr Ieuan Hughes, Wernas, Stad Croes y Waun. Braf eich gweld yn gwella ac yn mentro allan yn ystod y tywydd braf. Braf cael dweud fod Derfel Parry, Cae March, adref o'r ysbyty hefyd ac yn cryshau bob dydd.

Gobeithiwn fod Mrs Mair Williams, Fferm Bod Hyfryd, yn gwella wedi iddi dorri ei garddwrn; Kreena Worblly, 8 Ael y Bryn, wedi iddi syrthio a thorri ei braich, ac hefyd Elfyn Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd, wedi iddo frifo ei droed a dibynnu ar ffon i fynd o gwmpas.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mr Mike Thomas a theulu 9 Dôl Erddi yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt. MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Eryri ar 26 Chwefror, ar ôl cystudd caled, bu farw Elfed Wyn Roberts o Dwyros, Waunfawr, yn 86 mlwydd oed. Gedy weddw, Doris Roberts, ei ferch Ann a'i gŵr, Geraint, Gwenann (wyres), Llŷr (ŵyr), a'i chwiorydd, Mrs Elsie Jones, Y Groeslon; Mrs Ceri Jones, Y Fron; Mrs Olwen Williams, Rhosgadfan a Mrs Vera Thomas, Y Fron. Hefyd Mr Ieuan Thomas (brawd yng nghyfraith) a Mrs Megan Roberts, Penygroes (chwaer yng nghyfraith).

Roedd yn frodor o'r Fron. Ar ôl gadael Ysgol Dyffryn Nantlle, aeth i weithio i Chwael Dinoriwg ac yna, cyn ymddeol, yn Ferodo (storfa) Caernarfon. Yn ystod yr Ail Ryfel byd roedd yn aelod o'r Llu Awyr.

Cynhaliwyd yr angladd hollol breifat yn ôl ei ddymuniad yn Amlogfa Bangor ar 9 Mawrth, dan arweiniad y Parchg Gwenda Richards, ei weinidog ffyddlon. Claddwyd y llwch ym mynwent Llanbeblig dan arweiniad y Parchg Tom E. Williams, Henllan, ffrind i'r teulu.

Trefnwyd yr angladd gan Gwyn o Gwilym Jones, Caernarfon.

Elfed Wyn Roberts

Dymuna teulu y diweddar Elfed Wyn Roberts ddiolch o galon i staff Meddygfa Waunfawr, Ward

Moelwyn Ysbyty Gwynedd a Ward Peblig Ysbyty Eryri am eu gofal diffuant yn ystod ei waeledd. Diolch arbennig i'r Parchedig Gwenda Richards am arwain y gwasanaeth ac am ei ffyddlondeb.

Diolchwn yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ac am y negeseuon, y cardiau a'r rhoddion hael. Hefyd i Gwyn o Gwilym Jones am drefniadau hynod o barchus a thrylwyr.

Gŵyl Fai Antur Waunfawr Mai 02

rhwng 1pm a 4pm

ANTUR WAUNFAWR

BRYN PISTYLL

**STORI, SESIWN GELF,
CEFFYL A THROL, BBQ, CAFFI**

Cerddoriaeth fyw drwy'r prynhawn:

DONIAU CUDD

BAND IEUENGTID LLANRUG

A DAFYDD IWAN

Agor gardd Goffa Gwyn Davies ac ail lawnsio

Siop Bryn Pistyll yng nghwmni Alun Fred,

Gweinidog Trerftadaeth.

Croeso i bawb

4pm tan 8pm, GIG gyda

SIBRYDION, GAI TOMS, DRYMBAGO,

GWIBDAITH HEN FRÂN

MEINIR GWILYM

Tocynnau'r gig £5

Gwasanaethau Garddio Gorwel

**01286 650761
07773 020424**

**Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG**



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Gymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

CEFNOGAETH ARIANNOL I GLYBIAU CHWARAEON GWYNEDD

O dimau pêl-droed ieuenctid i glybiau nofio meistri, clybiau badminton a rhwyfo i gorff gymnasteg leol - mae pob math o glybiau a chyrff chwaraeon amrywiol wedi derbyn cefnogaeth ariannol gwerth cyfanswm o fwy na £7,000 yn ddiweddar er mwyn helpu cyfleon chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn cymunedau ar hyd a lled Gwynedd.

Mae naw o glybiau chwaraeon Gwynedd am elwa o Gymorth ariannol o bron i £7,100 sydd wedi ei sicrhau trwy gronfa Cist Cymunedol Sportlot Cyngor Gwynedd sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r clybiau fu'n llwyddiannus yn y rownd ddiweddaraf o arian Sportlot yn cynnwys:

Clwb Nofio Meistri Arfon, Clwb Gymnasteg Bangor, Clwb Rhwyfo Prifysgol Bangor, Clwb Badminton Blacnau Ffestiniog, Clwb Bowlio'r Friog, Clwb Hoci Pwllheli, Clwb Pêl-droed Iau Llanbedr, Clwb Pêl-rwyd Brynrefail a Chlwb Snwcer Tremadog. Bydd y grant Sportlot yn helpu i dalu am

offer gan gynnwys peli, ciwiau ac yn helpu i adfer brethyn ar hen fwrdd.

Y dyddiadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau arian Sportlot ar gyfer 2009 - 2010 yw:

11 Mai 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 1 Mehefin 2009

22 Mehefin 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 13 Gorffennaf 2009

17 Awst 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 7 Medi 2009

12 Hydref 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 2 Tachwedd 2009

11 Ionawr 2010 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 1 Chwefror 2010

Mae ffurflenni cais ar gyfer Cist Gymunedol Sportlot ar gael gan Jane Eade ar (01758) 704 010.

Am gyngor wrth ymgeisio am gymorth Sportlot, cysylltwch ag Elwyn Jones, Swyddog Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd ar (01758) 704067, neu David Lloyd-Williams, Swyddog Datblygu Chwaraeon Cynorthwyol ar (01758) 704057.



Ar Ben Arall y Lein

Mae'r hen ddywediadau yn ddigon gwir. Mae un, wedi ei gyfieithu, yn ddweud rhywbeth fel 'Rhaid byw i ddysgu'. Rwyf wedi cario'r syniad erioed fod eisiau dod ag amgylchiadau at ei gilydd fel tywydd gwlyb, cymylog a thipyn o gynhesrwydd i allu cael pysgota da, ond dros gwyliau'r Pasg mae hyn wedi ei droi ar ben ei lawr.

Tywydd heulog braf, digon o pobl ar lan y môr ond roedd digon hefyd ar ein llynnoedd. Roedd gwerthiant tocynnau dyddiol dros y gwyliau yn ardderchog, a'r ymwelwyr i gyd yn mwynhau cael rhyw ychydig oriau ar ein cychod ar Cwellyn, Nantlle a Dywarchen, ac o'r adborth a dderbyniwyd roedd pawb wedi cael amser ardderchog. Rhywbeth sy'n cynyddu mewn poblogrwydd yw'r ffaith fod y teuluoedd cyfan yn ymgymryd â'r grefft. Be well na bore o sgota ac wedyn rhyw bicnic bach ar lan un o'r llynnoedd, ymhell o afael ymwelwyr craill, tipyn o lonyddwch a thawelwch - peth go brin yn y fro reit aml y dyddiau hyn - pam na wnewch chi roi cynnig arni!

Am y pysgota a'r helfa: Llyn Dywarchen yw'r prif dynfa, gyda'r maes parcio yn orlawn bron pob dydd. Mae'r dal wedi bod yn dda hefyd gyda nifer o frithyll yr Enfys sydd wedi cynefino dros y gaeaf yn dod i'r bluen. Mae rhain y bysgod gwerth chweil, gyda blas arbennig arnynt. Dyna reswm arall dros fynd i sgota - dod â'ch swper gartref efo chi, tipyn mwy blasus na'r rhai sy'n dod o silff yr archfarchnadoedd.

Nodyn sydd ddim mor bleserus yw'r ffaith fod

arllwysiadau o waith carthffos Penygroes/Llanllyfni yn lliwio Afon Llyfni yn aml. Rwy'n ccisio cael Asiantaeth yr Amgylchedd i roi sylw priodol i'r sefyllfa ond, yn anffodus, fel y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus y dyddiau yma yr ateb sydd i'w gael ydi - 'does neb yn ffonio i riportio felly mae'n rhaid nad ydi'r broblem ddim yn or-ddrwg'. Felly i bawb sydd yn cwyno i mi, ffoniwch yr Asiantaeth ar ei llinell argyfwng 0800 80 70 60. Fel hyn yn union ddatblygodd y problemau enfawr o ddechrau'r 1990's ymlaen ar Lyn Padarn, ac mae'r broblem yn y fan honno yn dal i achosi pryder.

Mater llawer mwy pleserus yw gallu adrodd fod Melin y Cim yn barod i dderbyn ymwelwyr, mae gryn waith i'w wneud eto, ond rhaid i hyn ddisgwyl tan y gaeaf. Fe hysbysebwyd yr adeilad yn ystod dechrau Mawrth, ac mae'r ymateb wedi bod yn uwch na'r disgwyl. Mae hyn yn codi cwestiwn difrifol o faint o arian mae'r Gymdeithas wedi ei golli o gofio fod y dyddiad cwblhau i fod yn niwedd 2004. Tydi hi ddim yn 'sym' anodd i'w gweithio allan. Ond dyna ni, mae'r lle yn dechrau dod â budd i'r ardal o'r diwedd. Diolch yn arbennig i Adran Ddatblygu Cyngor Gwynedd, Amcanl Ewrop drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chynllun Ardoll Agregau, eto drwy'r Cynulliad, am fod mor amyneddgar drwy'r holl oedi, ond yn fwyaf, wrth gwrs, diolch i drigolion Pontllyfni am roi i fyny â'r cwbl. Diolch i chwi oll.

HUW PRICE HUGHES

Cyfle i ennill llyfrau gwych!



Cyfres o lyfrau byr a bachog yw'r gyfres Stori Sydyn, ac mae'r llyfrau wedi'u hysgrifennu'n benodol ar gyfer oedolion sy'n cgin-ddarllenwyr, y sawl sydd wedi colli'r arfer o ddarllen neu unrhyw un sy'n chwilio am lyfr i'w ddarllen yn sydyn.

Menter ar y cyd rhwng Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru yw'r gyfres ac fe gyhoeddwyd

pedair cyfrol newydd eleni.

Mae yna ddwy gyfrol hunangofiannol gan Shane Williams ac Owain Tudur Jones. Rhwng cloriau *Ar Ben y Byd* cawn rannu gwefr llwyddiannau Shane yn 2008, ac mae *Fyny Gyda'r Swans* yn rhoi cipolwg ar gyffro bywyd pêl-droediwr ifanc. Mae *Bywyd yn y Coal House*; y teulu Griffiths yn sôn am brofiadau'r teulu o Aberteifi a fu'n rhan o'r gyfres dcledu ac yn *Peter Moore*; y gwaethaf o'r gwaethaf ceir hanes un o lofruddion gwaethaf Cymru.

Mae cyfle i chi ennill set o'r teitlau diweddaraf yma drwy ateb cwestiwn syml iawn!

Pa ddau chwaraewr adnabyddus sydd wedi ysgrifennu Stori Sydyn eleni?

Anfonwch yr ateb, eich enw a'ch cyfeiriad at y Golygydd mor fuan â phosib. Y cyntaf i'r felin fydd yn ennill y llyfrau!

Stori Sydyn

Hawdd eu codi, anodd eu rhoi i lawr



Tymor y Rhedeg Mynydd

parhad o dudalen 20

Moel Faban (Mehefin 9fed), Penmaenmawr (Mehefin 23ain) a Moel Eilio (Mehefin 30ain) yn weddill i ddiweddu'r gyfres. Mae'n rhaid cystadlu mewn unrhyw bedair ras i gael sgôr i gyfrif ar ddiwedd y gyfres, ac mae'r cystadlu eisoes yn frwd iawn.

Ar wahân i'r rasmus byr hyn sy'n rhoi blas ar rasio mynydd i'r newydd-ddyfodiad, mae tair ras 'glasurol' yn cael eu cynnal yn weddol lleol yn ystod mis Mai. Ar ddydd Sadwrn, 9fed bydd Ras Foel Fras yn cychwyn o bentref Aber. Mae'n dair milltir ar ddeg o bellter a dringo o dros 3,000 troedfedd. Wythnos yn ddiweddarach, ar Fai 16eg, cynhelir Ras Moel Eilio o Lanberis. Dyma'n sic

un o glasuron byd rhedeg mynydd, gyda rhedwyr o bob rhan o wledydd Prydain yn debygol o gystadlu. Mae'r ras yn cynnwys copaon Moel Eilio, y Foel Gron, y Foel Goch a Moel Cynghorion. Yna, ar 24ain o'r mis bydd Ras y Garneddau yn cychwyn o'r Gerlan, Bethesda, gan ddringo'r ddwy Garnedd - Dafydd a Llewelyn, Yr Elen a Gyrn Wigau.

I'r rhedwyr sydd am gystadlu yn y tair ras, mae'n golygu dros ddeng milltir ar hugain o redeg a dringo dros 10,000 o droedfeddi.

Mae amryw o rasmus ieuenctid wedi eu trefnu yn gysylltiedig â'r prif rasmus hyn hefyd, a'r gobaith yw i nifer o redwyr lleol addawol gael y profiad wrth gystadlu ynddynt.

CHWARAEON

HAF O SIOM I'R SÊR?

Mae cryn edrych ymlaen tuag at yr haf yma gyda thaith rygbi'r Llewod i gadarnle'r 'Boks', a'r Awstraliaid yn ymweld am gyfres hanesyddol y Llundw, fydd yn cychwyn yn Stadiwm Swalec yng Nghaerdydd. Mae'n gwestiwn a fydd unrhyw Gymro yn ymgiprys am y Llundw, ond bydd Lloegr yn gweld eisiau doniau Simon Jones a'i allu i wyro'r bêl drwy'r awyr ar gryn gyflymdra. Fe fydd un cysylltiad lleol efallai, os dewisir Andy Flower yn hyfforddwr y tîm. Bu'r cricedwr amryddawn, diymhongar yma yn chwarae am un tymor i dîm Dinas Bangor yn y '90au. Cyfrannodd yn helaeth i ddatblygiad y chwaraewyr ifanc â aeth ymlaen i ennill tair bencampwriaeth yn olynol.

Cofir iddo wneud safiad dewr gyda Henry Olunga yn erbyn unbeniaeth Mugabe yn Zimbabwe, ac yn wir mae bellach yn ffoadur o'r wlad mae'n ei charu cymaint. Mae gennyf lythyr ganddo a ddanfonwyd o India'r Gorllewin rhyw ddeng mlynedd yn ôl ble mae yn rhagweld y trafferthion enbyd yn ei wlad enedigol a'r gwewyr meddyliol â fuasai'n arwain at ei benderfyniad dewr. Trysoraf y llythyr yn fawr iawn.

Yna'r Llewod. Ar ddechrau'r tymor roeddem yn disgwyl gweld nifer o Gymru yn y garfan. Yn y mis diwethaf newidiodd y sefyllfa. Daeth y Gwyddelod i'r brig fel gwlad a thalaith Munster yn fiefrynnau am Gwpan Ewrop. Chwalwyd 'sêr' Cymru yn

rhyngwladol ac yng nghrysau'r Gweilch. Gallai'r ail sefyllfa ddylanwadu yn fawr ar rengoedd y Llewod. Yn sicr bydd hyfforddwyr y Llewod yn chwilio am gadernid ar feysydd caled y Veldt, gydag ychydig o le i ddewiniaeth. Bydd marc cwestiwn yn sicr yn erbyn Henson a Hook ac hefyd ein dewin bach, Shane Williams. Ni chafwyd fawr o fflach ganddo mewn coch neu ddu yn ddiweddar, a chwestiynwyd ei allu amddiffynol. Buasai'n drueni pe buasai'n colli'r daith, yn enwedig gan mai hwn yn amlwg fydd ei gyfle olaf. Bydd y tri Jones o flaenwyr - Alan, Ryan ac Adam hefyd yn chwysu. Gallaf weld Steven Jones o griw siomedig y Sgarlets yn mynd, efallai, fel eilydd i Ronan O'Gara. Efallai fod 'sêr' y Gweilch yn dioddef o ddiffyg arweiniad profiadol o du'r hyfforddwyr. Cymharer nhw â'u cymdogion pêl-droed, yr Elyrch. Un o dimau mwyaf deniadol y Bencampwriaeth oherwydd agwedd bositif a gweledigaeth a chred rheolwr ifanc.

Y Gleision sydd yn cario baner Cymru gyda'u gêm yn seiliedig ar amddiffyn cryf a dealltwriaeth o'r hyn sy'n angenrheidiol i ennill gemau pwysig. Yma mae hyfforddi cadarn a phrofiad dau o wir sêr y tymor i mi, sef Gethin Jenkins a'r bytholwyrdd Martin Williams.

Haf i edrych ymlaen ato yn wir.

UGAIN MLYNEDD YN ÔL

Rwy'n ysgrifennu hyn union ugain mlynedd yn ôl i ddigwyddiadau erchyll Hillsborough, a rhaglen atgofus Dylan Jones ar y radio yn y ccfndir. Cofiaf y diwrnod yn iawn. Nid oedd y gêm yn fyw ar y BBC ond roeddwn yn ffodus fod gennyf deledu du a gwyn oedd yn derbyn signal RTE. Yn hogyn da roeddwn wedi torri'r gwair yn y bore ac wedi cael cinio cyn setlo i lawr. Datblygodd y drychineb mor araf deg. Chwaraewyd ychydig funudau ac yna'r camerau yn troi i gyfeiriad Leppings Lane a'r wasgfa anhygoc. Cefnogwyr yn dringo dros y cloriau. Plant yn cael eu cario dros y dorf. Chwaraewyr yn gadael y cae. Yna'r dioddefaint o flaen ein llygaid. Gwrhydri llawer, digofaint craill a acth i wyllo gêm bêl-droed. Nid oedd angen sylwcbach, roedd y lluniau yn siarad. Euthum allan ac roedd dau neu dri ar y stad wrthi'n

torri gwair. Dywedais am yr hyn oedd yn datblygu yn Sheffield a daethant i'r tŷ a chyd-wyllo'r drychineb.

Bu cryn fynegi barn a bai dros y blynyddoedd, ac yn wir cafwyd cryn ddatblygiad o ran diogelwch y meysydd. Eto mae Hillsborough, Heysel, Ibrox, Bradford a Munich yn aros yng nghof llawer heb ddiplannu o gwbl o fcdyiliau'r teuluoedd a gollodd anwyliaid ar y diwrnodiau du hynny.

Mae rhai yn dweud mai'r deyrnged orau yw i glybiau fel Lerpwl a Man. Utd. ennill tlysau a'u cyflwyno er cof. I mi buasai'n well gen i weld awdurdodau y ddau glwb a'u gwir gefnogwyr yn tyrchu allan yr elfen anacddfed o'u plith sy'n mynnu cyfeirio yn eu llafarganu oeraidd at drychinebau Hillsborough a Munich. Gadewch iddynt hwy 'gerdded ar ben eu hunain' yn bell o'r meysydd.

300 O'R DIWEDD!

Llongyfarchiadau i Marc Lloyd Williams ar gyrraedd y garreg filltir o 300 gôl yng Nghynghrair Cymru. Y gobaith yw bod ei goliau yn ddigon i gadw Port yn y Gynghrair. Gyda'r Cofis wedi boddi erbyn hyn, a Llangefni a Chaergybi wedi methu ac ennill dyrchafiad, buasai'n llwm heb Port yma yn y gogledd-orllewin. Bydd yn ddiddorol gwybod beth fydd y dyfodol ar yr Oval y tymor nesaf.

YR IFANC YN CARIO'R GOBEITHION

Llwm iawn yw hi ar ein timau hŷn ym Mro'r Eco unwaith eto. Yng Nghynghrair Arfon mae Waunfawr gyda gobaith o esgyn i'r adran gyntaf, ond bydd ail dîm Llanrug yn disgyn i'r ail adran. Mae si bod yr awdurdodau yn ceisio ffurfio adran ail dimau ar hyd y gorllewin fel sydd yn rhanbarth Clwyd. O sylly ar y gwahanol gynghreiriau bydd ystod gallu anhygoel rhwng y gwahanol ail dimau. Fawr o ddatblygiad mewn cynllun o'r fath dybiwn i. Mae Llanberis yn hynod o ffodus fod Nantlle Vale ac Amlwch mor echrydus o wael neu buasent hwy mewn perygl o ddisgyn i Gynghrair Gwynedd.

Ymysg cyfforddusion canol tabl mae tîm cyntaf Llanrug. Mae Bethel yn mynd drwy gyfnod simsan, a diffyg dyfnder carfan yn amlygu ei hun. Buont yn anlwcs yn gorfod wynebu y Blaenau ddwy waith i ffwrdd yn y cwpanau, ond siomedig

oedd colli gartref i Fodedern mewn cwpan arall.

Ar un olwg mae'n edrych yn ddu, ond mae safon yr ieuencid yn codi calon. Yn amlwg mae hyfforddwyr lleol yn gwneud eu gwaith. Ydy'r talent yma yn cael llwybr rhydd i dimau'r oedolion dros gyfnod sy'n gwestiwn arall.

Gallwn ymfalchio ym mherfformiad tîm -16 Ysgol Brynrefail. Gobeithio, yn y rhifyn nesaf, y byddaf yn eu llongyfarch am ennill Cwpan Ysgolion Cymru. Byddant yn wynebu unai y Barri neu Llanishen ar faes TNS yng Nghroesoswallt ar Fai 9ed. Dymunwn yn dda i'r tîm, ac rwy'n siŵr y bydd tyrfa dda o'r fro yn mynd draw i'w cefnogi.

Gobeithio hefyd y gallwn longyfarch tîm -12 Llewod Llanrug fydd wedi herio Conwy yn rownd derfynol Cwpan Arfordir Gogledd Cymru.

LLWYDDIANT 5 x 60

Cynllun i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn ystod o chwaraeon a champau yw 5 x 60. Fel mae'r enw yn awgrymu mae'r cynllun yn troi o gwmpas pum sesiwn o awr o hyd. Gall hyn ddigwydd yn ystod awr ginio, ar ôl Ysgol neu yn ystod y gwyliau. Ar hyn o bryd cynigir gymnasteg, dawn, pêl-fasged a chriced.

Yn ystod gwyliau'r Pasg cynhelid twrnament pêl-fasged dan 16 rhwng ysgolion Friars, St. Gerrards, Caergybi, Syr Hugh Owen ac Ysgol Brynrefail. Brynrefs aeth â hi drwy guro Syr Hugh 53-8 yn y rownd derfynol. Os am fwy o fanylion am y cynllun poblogaidd yma, y cyswllt i ardal dalgylch Ysgol Brynrefail yw Catrin Gwyn Jones (07771544086) neu catringwynjones@gwynedd.gov.uk

Tymor y Rhedeg Mynydd

Mae'r tymor yn cychwyn cyn i dymor y rasmus traws gwlad orffen bron, ac eleni, mae'n ymddangos fod mwy o unigolion â diddordeb mewn rhoi cynnig ar rasio yn y mynyddoedd. Eisoes cynhaliwyd dwy o'r rasmus cyntaf yn y gyfres Nos Fawrth boblogaidd. Syfrdanwyd y trefnwyr yn Y Fron ganol Ebrill, pan ddaeth dros gant o redwyr yno ar noson o storm acafol i herio cwrs byr a chyflym Moel Tryfan. Er gwaethaf y tywydd garw, torrwyd bron pob record yng ngwahanol

gategoriau oedran y ras. Yr un oedd y stori wythnos yn ddiweddarach ar y Foel Lus uwch Penmaenmawr, gyda dros bedwar ugain o redwyr yn mentro i'r copa ac yn ôl ar noson tipyn brafiach y tro hwn.

Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r Wasg, bydd Ras Mynydd Mawr a Ras Nant Peris eisoes wedi bod, gyda dim ond Moel y Gest (Mai 12fed), Aber (Mai 26ain),